
# Cerddoriaeth

## Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3










**Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

**Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**


Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Cerddoriaeth

## Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3

**Cynulleidfa** Athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; tiwtoriaid hyfforddiant cychwynnol athrawon; a phobl eraill sydd â diddordeb mewn datblygiad proffesiynol parhaus.

**Trosolwg** Mae'r deunyddiau hyn yn darparu negeseuon allweddol ar gyfer cynllunio dysgu ac addysgu mewn cerddoriaeth. Maen nhw'n cynnwys proffiliau o waith dysgwyr er mwyn egluro'r safonau a amlinellir yn y disgrifiadau lefel ac yn dangos sut i ddefnyddio disgrifiadau lefel wrth lunio barn sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad dysgwr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.

**Camau i'w cymryd** Adolygu'r cynlluniau a'r gweithgareddau dysgu yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, a pharatoi ar gyfer llunio barn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.

**Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Yr Is-adran Cwricwlwm
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: is-adrancwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn llyw.cymru/dysgu

**Dogfennau cysylltiedig** *Cerddoriaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru; Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru; Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig; Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)

Mae'r canllawiau hyn ar gael yn Saesneg hefyd.

75% wedi'i ailgylchu recycled

Cyf: CAD/GM/0140
ISBN: 978 0 7504 5644 9

A-EAC-02-01-qA694365/1/KE
© Hawlfraint y Goron Tachwedd 2010
WG30202

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 2

**Defnyddio'r deunyddiau hyn** 4

**Adran 1**

Negeseuon allweddol ar gyfer dysgu ac addysgu mewn cerddoriaeth 7

**Adran 2**

Disgwyliadau a dilyniant mewn cerddoriaeth 20

**Adran 3**

Defnyddio'r disgrifiadau lefel yng Nghyfnod Allweddol 2 35

Owain – nodweddion o Lefelau 3 a 4 37

Mirain – nodweddion o Lefelau 3, 4 a 5 40

Jac – nodweddion o Lefelau 5 a 6 40

**Adran 4**

Llunio barn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 47

Daniel – Lefel 4 49

Haf – Lefel 7 49

Charlotte – Lefel 6 56

**Cyfeiriadau defnyddiol** 60

**Cydnabyddiaethau** 63

# Cyflwyniad

Mae'r rhaglenni astudio yn nodi'r cyfleoedd y dylid eu rhoi i ddysgwyr ym mhob cyfnod allweddol, ac maen nhw'n darparu'r sail sy'n eich galluogi chi, fel athrawon, i gynllunio gwaith dysgu ac addysgu. Mae'r rhaglenni astudio wedi eu rhannu'n ddwy adran, sef Sgiliau ac Ystod. Mae'r adran Sgiliau yn rhestru'r sgiliau y dylid eu datblygu mewn pwnc, ac mae'r adran Ystod yn nodi'r cyfleoedd a'r cyd-destunau y dylid eu defnyddio i ddatblygu ac atgyfnerthu'r sgiliau hynny.

Mae asesu ffurfiannol parhaus – asesu **ar gyfer** dysgu – yn hanfodol i addysgu da. Drwy'r asesiadau y byddwch yn eu gwneud wrth addysgu, byddwch yn casglu gwybodaeth helaeth am gryfderau eich dysgwyr, a'r meysydd mae angen eu datblygu ymhellach. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i'ch helpu i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Bydd y dysgwyr hefyd yn dod i ddeall nodau dysgu penodol a'r meini prawf llwyddiant sy'n gysylltiedig â nhw fel eu bod, gyda'ch cymorth chi, yn medru datblygu eu gallu i hunanasesu ac asesu cyfoedion. Wrth wneud hynny, bydd modd iddyn nhw weld ble maen nhw arni ar hyn o bryd, gosod targedau a gweithio tuag atyn nhw, a darganfod pryd neu os llwyddwyd i'w cyrraedd. Mae targedau unigol yn gysylltiedig â gwella ansawdd gwaith dysgwr, fel y nodir mewn adborth ffurfiannol, ac maen nhw felly'n gysylltiedig â meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau penodol. Nid yw disgrifiadau lefel yn dargedau effeithiol am eu bod yn disgrifio cyrhaeddiad ar draws ehangder y rhaglen astudio ar ddiwedd cyfnod allweddol.

Drwy nodi disgwyliadau ar lefelau penodol a dilyniant yn y pwnc, gall disgrifiadau lefel helpu i lywio eich gwaith cynllunio, addysgu ac asesu yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3. Bydd tystiolaeth o waith asesu ar gyfer dysgu yn dangos ble mae angen mwy o amser i atgyfnerthu'r dysgu ac yn dangos pryd bydd dysgwyr yn barod i symud ymlaen. Efallai y byddwch am gadw rhywfaint o dystiolaeth fel y gallwch drafod gwaith a dilyniant dysgwyr gyda nhw a/neu gydweithwyr neu rieni/warcheidwaid. Er hynny, nid yw cadw cofnodion sy'n ddiangen o gymhleth neu gadw tystiolaeth fanwl am bob dysgwr yn ofyniad statudol.

Swyddogaeth hanfodol disgrifiadau lefel yw eich helpu i lunio barn grynodol a chytbwys am berfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Nid yw disgrifiadau lefel wedi eu cynllunio i'w defnyddio i bennu lefel ar gyfer darnau unigol o waith nac i gynhyrchu data bob hanner tymor neu bob tymor. Dim ond ar ddiwedd y cyfnod allweddol y byddwch wedi casglu digon o wybodaeth am berfformiad dysgwr ar draws ystod o waith, ac mewn amrywiaeth o gyd-destunau, i'ch galluogi i lunio barn mewn perthynas â'r disgrifiadau lefel.

Hwyrach y bydd rhai dysgwyr wedi cyrraedd lefel uwch mewn rhai agweddau ar y gwaith nag agweddau eraill, ac na fydd un disgrifiad lefel ar ei ben ei hun yn cyd-fynd yn union â'u perfformiad. Mae hynny i'w ddisgwyl, ac mae'r ystod o waith dysgwyr unigol sydd wedi ei gynnwys yn y deunyddiau hyn yn dangos sut i lunio barn am y lefel sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad dysgwr dan amgylchiadau o'r fath. I lawer o ysgolion/adrannau, mae datblygu eu proffiliau dysgwyr eu hunain wedi bod o gymorth i safoni barn ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Mae'r proffiliau hynny hefyd yn helpu i gynnal dealltwriaeth gyffredin o safonau pan maen nhw'n cael eu hadolygu'n flynyddol a'u diweddaru pan fo angen.

Pan fydd barn yn cael eu llunio ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, dylech benderfynu pa ddisgrifiad lefel sy'n **cyd-fynd orau** â pherfformiad dysgwr. Y nod yw cael barn gytbwys:

- sy'n seiliedig ar eich gwybodaeth am y modd mae'r dysgwr yn perfformio ar draws ystod o gyd-destunau
- sy'n ystyried gwahanol gryfderau a meysydd mae angen eu datblygu ym mherfformiad y dysgwr dan sylw
- a gaiff ei chymharu â disgrifiadau lefel cyfagos er mwyn sicrhau mai'r lefel y tybir ei bod fwyaf priodol yw'r lefel sy'n cyd-fynd orau'n gyffredinol â pherfformiad y dysgwr yn y targed cyrhaeddiad.

Mae deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol wedi'u hysgrifennu ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio islaw Lefel 1. Deilliannau anstatudol yw'r rhain, a bwriedir darparu arweiniad ar gyfer eu defnyddio.

# Defnyddio'r deunyddiau hyn

Mae'r llyfryn hwn wedi ei rannu'n bedair adran.

| | |
|---|---|
| Adran 1 | sy'n tynnu sylw at negeseuon allweddol ar gyfer dysgu ac addysgu mewn cerddoriaeth. |
| Adran 2 | sy'n tynnu sylw at ddisgwyliadau a dilyniant mewn cerddoriaeth. |
| Adran 3 | sy'n cynnwys cyfres o broffiliau dysgwr yng Nghyfnod Allweddol 2. Diben y rhain yw dangos nodweddion y disgrifiadau lefel. Bydd rhaid i chi gyfeirio at y DVD ar y cyd â'r llyfryn hwn. |
| Adran 4 | sy'n cynnwys cyfres o broffiliau dysgwr yng Nghyfnod Allweddol 3. Diben y rhain yw dangos y defnydd a wneir o'r disgrifiadau lefel wrth lunio barn am berfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd y cyfnod allweddol. Bydd rhaid i chi gyfeirio at y DVD ar y cyd â'r llyfryn hwn. |

Gallwch gyfeirio at y llyfryn hwn a'r DVD pan fyddwch am:

- adolygu eich cynlluniau a'ch gweithgareddau dysgu
- ystyried y safonau a amlinellir yn y Gorchymyn cerddoriaeth diwygiedig
- cydweithio ag athrawon eraill er mwyn meithrin dealltwriaeth gyffredin o'r disgrifiadau lefel
- paratoi ar gyfer llunio barn ar ddiwedd y cyfnod allweddol
- datblygu eich proffiliau dysgwr eich hun
- cynorthwyo'r gwaith pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3.

Mae'r disgrifiadau lefel wedi'u cynnwys ar daflen gyda'r llyfryn hwn fel bod modd cyfeirio atyn nhw'n hawdd.

Mae DVD yn cynnwys ffilm o'r proffiliau dysgwr a CD-ROM wedi'u darparu gyda'r llyfryn hwn hefyd. Mae'r CD-ROM yn cynnwys fersiwn PDF o *Cerddoriaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* a'r canllawiau hyn.

Mae'r canllawiau hyn yn rhan o gyfres o ddeunyddiau a fydd yn helpu athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 i roi'r cwricwlwm diwygiedig a'i drefniadau asesu cysylltiedig ar waith. Mae'r gyfres yn cynnwys:

- *Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig* – canllawiau cyffredinol ar roi'r cwricwlwm newydd ar waith
- *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* – sy'n cynnwys arweiniad ynghylch dilyniant mewn sgiliau
- *Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3*
- *Cwricwlwm i bob dysgwr: Canllawiau i gynorthwyo athrawon dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol*
- canllawiau penodol ar gyfer pob un o bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol, addysg bersonol a chymdeithasol, gyrfaoedd a'r byd gwaith, ac addysg grefyddol.

# *Adran* 1

## Negeseuon allweddol ar gyfer dysgu ac addysgu mewn cerddoriaeth

Mae cerddoriaeth yng nghwricwlwm cenedlaethol Cymru yn gynhwysol, ac yn canolbwyntio ar y dysgwr ac ar sgiliau. Mae newidiadau sylweddol wedi eu gwneud i gynnwys a chyflwyniad y cwricwlwm er mwyn eich helpu i gynllunio profiadau perthnasol ac ysgogol i ddysgwyr.

## Sgiliau

Mae'r rhaglenni astudio yn cyflwyno tri sgìl cerddorol – Perfformio, Cyfansoddi a Gwerthuso. Mae cydblethu'r tri sgìl hyn sydd yr un mor bwysig â'i gilydd yn allweddol i ddysgu cerddoriaeth yn llwyddiannus. Yn aml, dim ond un symbyliad sydd ei angen i sicrhau bod dysgwyr yn meithrin y tri sgìl cerddorol.



Er enghraifft, yn 'Sosban Fach' (Daniel a Haf 2), mae'r dysgwyr yn chwarae trefniant yn yr ystafell ddosbarth gan ddefnyddio amrywiaeth o offerynnau traw, yn creu alaw yn fyrfyfyr dros gerddoriaeth gefndirol, ac yna'n gwrando ar y fersiynau gwahanol o'r gân ac yn eu cymharu.



Mae *The Snow Spider* (Mirain a Jac 4) hefyd yn dangos cyfuniad o'r tri sgìl cerddorol, wrth i ddysgwyr gyfansoddi, perfformio a gwerthuso eu syniadau cerddorol eu hunain yn seiliedig ar symbyliad llenyddol.

## Ystod

Dylid datblygu sgiliau cerddorol a'u hatgyfnerthu drwy ystod eang o weithgareddau. Mae dewis repertoire, ysgogiadau a chyd-destunau perthnasol yn allweddol i ennyn diddordeb dysgwyr mewn cerddoriaeth.



Mae 'Only Love' (Daniel a Haf 3) yn enghraifft ardderchog o ddefnyddio tiwtor ymweld i gyfoethogi'r amrywiaeth o brofiadau i ddysgwyr. Mae'r tiwtor yn cynorthwyo'r dysgwr i wella agweddau penodol o'i dechneg lleisiol yn ogystal ag ehangu ei repertoire.

Ym mhob gweithgaredd cerddorol, dylai dysgwyr ffocysu eu gwrando ar yr elfennau cerddorol – traw, parhad, cyflymder, ansawdd, gwead, dynameg, strwythur a distawrwydd. Gweler tudalennau 22 a 23 i gael diffiniadau o'r termau hyn ac enghreifftiau o gynnydd mewn perthynas â'r elfennau hyn.

Mae cerddoriaeth y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer pob dysgwr a phob gallu. Gwelir y dysgwyr a broffilir yn y DVD yn gweithio mewn dosbarthiadau gallu cymysg, gyda'u hathrawon yn gwahaniaethu weithiau yn ôl tasg ac weithiau yn ôl canlyniad.



Er enghraifft, yn 'Trên y Gair' (Owain 1), mae'r dysgwyr yn chwarae trefniant ystafell ddosbarth gwahaniaethol. Mae'r darnau yn amrywio o linellau araf hir, un nodyn i ddarnau trawsacennog piano ar gyfer dwy law. Ar y cyd â'r athrawon, mae dysgwyr yn dewis darnau priodol, weithiau'n ymarfer ac yn atgyfnerthu'r cyfarwydd, ac weithiau'n herio eu hunain â'r anghyfarwydd.



Yn 'Grwndfas' (Daniel a Haf 4), mae'r dysgwyr yn gweithio ar dasg gyffredin, ac yn cyfuno ymatebion unigol i greu darn grŵp. Mae cerddoriaeth yn cynnig ei hun i gynhwysiant ac, yn yr enghraifft hon, mae dysgwyr ag arddulliau dysgu a galluoedd gwahanol yn cydweithio'n ddidrafferth.

Yn ogystal â sgiliau cerddorol, mae'r rhaglenni astudio ar gyfer cerddoriaeth yn cyflwyno cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu sgiliau a dulliau dysgu ehangach.

## Cerddoriaeth a sgiliau ar draws y cwricwlwm

Mae *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif i ddysgwyr 3 i 19 oed.

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y sgiliau maen nhw wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r dysgwyr barhau i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Gellir gweld cynnydd yn nhermau mireinio'r sgiliau hyn a thrwy eu cymhwyso i dasgau sy'n symud o'r diriaethol i'r haniaethol; o'r syml i'r cymhleth; o'r personol i'r 'darlun mawr'; o'r cyfarwydd i'r anghyfarwydd; ac o'r dibynnol i'r annibynnol a'r cyd-ddibynnol.

Defnyddiwyd eiconau yn y Gorchymyn cerddoriaeth i ddangos gofynion penodol ar gyfer datblygu sgiliau a dysgu yn y cwricwlwm cyfan.

Dylai'r dysgwyr wella eu sgiliau Perfformio, Cyfansoddi a Gwerthuso drwy ddatblygu a defnyddio sgiliau meddwl, cyfathrebu a TGCh. Mae'r fframwaith sgiliau yn rhoi arweiniad ar barhad a chynydd wrth ddatblygu'r sgiliau ehangach hyn.

### Datblygu meddwl



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy brosesau **cynllunio**, **datblygu a myfyrio**.

Mewn cerddoriaeth, bydd y dysgwyr yn cynllunio, yn datblygu ac yn myfyrio, a hynny dros gyfnod o amser ac wrth greu cerddoriaeth fyw. Er enghraifft, bydd y dysgwyr yn dewis adnoddau addas ar gyfer perfformio a chyfansoddi, yn creu ac yn datblygu syniadau cerddorol, yn gwerthuso'u cerddoriaeth eu hunain a cherddoriaeth pobl eraill, ac yn myfyrio ynghylch eu dulliau gweithio.



Mae ‘Croeso Caerdydd!’ (Mirain a Jac 3) yn enghraifft dda o ddysgwyr yn cynllunio, datblygu a myfyrio ar gerddoriaeth. Gwelwn ddysgwyr yn penderfynu ar feini prawf llwyddiant ar gyfer cyfansoddiadau grŵp, yn creu ac yn datblygu syniadau cerddorol, ac wedyn yn adolygu canlyniadau a meini prawf llwyddiant. Yn yr enghraifft hon, bydd dysgwyr yn cynllunio, yn datblygu ac yn myfyrio dros gyfnod o amser.



Yn ‘Fi o Dduw’ (Owain 2) gwelwn ddysgwyr yn cynllunio ac yn datblygu yn ystod proses o greu cerddoriaeth fyw. Bydd dysgwyr yn creu brawddegau cerddorol cwestiwn ac ateb yn fyrfyfyr dros gerddoriaeth gefndirol, ac mae angen iddyn nhw wneud penderfyniadau cerddorol yn gyflym. Yn yr enghraifft hon, mae’r broses o werthuso sgiliau dysgu a meddwl yn digwydd mewn amser real (h.y. tra bo dysgwyr yn creu cerddoriaeth yn fyrfyfyr) ac ar ddiwedd y gweithgaredd mewn ymateb i gwestiynau’r athrawes.

Mae’r DVD yn dangos llawer o ddysgwyr yn datblygu sgiliau meddwl a strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Ceir gwybodaeth bellach am rhain yn y tabl ar y dudalen nesaf.

| Strategaeth | Beth mae'r dysgwyr yn gwneud? | Pam maen nhw'n gwneud hyn? | Ym mhle ar y DVD? |
|---|---|---|---|
| Byrddau gwyn bach | Mae dysgwyr yn defnyddio byrddau gwyn bach gellir ysgrifennu arnyn nhw a'u sychu, yn unigol neu mewn grwpiau. | Mae'n gadael i ddysgwyr ddangos eu hatebion ac yn annog pob dysgwr i gyfrannu. | • 'Yma o Hyd' (Owain 5)<br>• *Palladio* (Mirain a Jac 5)<br>• 'Sosban Fach' (Daniel a Haf 2)<br>• 'St. Louis Blues' (Charlotte 5) |
| Pa un sydd ddim yn perthyn? | Bydd dysgwyr yn nodi beth sy'n debyg a gwahaniaethau er mwyn canfod pa un o dair eitem sy'n wahanol i'r lleill. | Mae'n hybu meddwl dargyfeiriol. | • Pa un sydd ddim yn perthyn? (Daniel a Haf 6) |
| Asesu cyfoedion | Bydd dysgwyr yn rhoi sylwadau ar waith ei gilydd. | Mae'n sicrhau bod dysgwyr yn canolbwyntio ar y bwriadau dysgu. | • *The Snow Spider* (Mirain a Jac 4) |
| Hunanasesu | Bydd dysgwyr yn rhoi sylwadau ar eu gwaith eu hunain. | Mae'n annog dysgwyr i bwyso a mesur eu dysgu. | • 'Trên y Gair' (Owain 1) |
| Meini prawf llwyddiant | Bydd dysgwyr yn pennu a blaenoriaethu meini prawf llwyddiant ac yn rhoi rhesymau dros eu dewis. | Mae'n annog dysgwyr i gynllunio eu dysgu a'i bwyso a'i fesur. | • 'Croeso Caerdydd!' (Mirain a Jac 3) |
| Meddwl-paru-rhannu | Bydd dysgwyr yn meddwl yn unigol, yna'n trafod gyda phartner, cyn rhannu eu syniadau â'r dosbarth. | Mae'n annog dysgwyr i gyfrannu ac yn lleihau'r ofn o fethu. | • 'Agorawd Yr Wyddfa' (Owain 4) |
| Dwy seren a dymuniad | Bydd dysgwyr yn canolbwyntio ar ddau sylw cadarnhaol ac un targed. | Mae'n annog dysgwyr i feddwl am gryfderau eu gwaith a meysydd i'w gwella. | • 'Adiemus' (Mirain a Jac 1) |

## Datblygu cyfathrebu

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy sgiliau **llafaredd**, **darllen**, **ysgrifennu** a **chyfathrebu ehangach**.

Mewn cerddoriaeth, bydd y dysgwyr yn cyfathrebu trwy berfformio a chyfansoddi, a byddan nhw'n datblygu ac yn defnyddio'u sgiliau siarad a gwrando trwy werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill.

Mae cerddoriaeth yn ddull cyfathrebu ehangach ac mae'r DVD yn cynnwys nifer o enghreifftiau o ddysgwyr yn cyfathrebu drwy ganu, chwarae, cyfansoddi a gwrando ar gerddoriaeth. Mae cerddoriaeth, i bob diben, yn ddilafar felly, yn y rhan fwyaf o achosion, gwaith ymarferol fydd y brif ffynhonnell i roi tystiolaeth o ddealltwriaeth gerddorol.

Gall dysgwyr ddatblygu a defnyddio sgiliau siarad a gwrando drwy werthuso eu cerddoriaeth eu hunain a cherddoriaeth pobl eraill. Mae siarad am waith yn helpu dysgwyr i feddwl am y prosesau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cerddorol ac mae'n ddefnyddiol iawn i ddatgelu dealltwriaeth gerddorol dysgwyr. Dylid cynorthwyo dysgwyr y mae geiriau'n anodd iddyn nhw i ddatblygu'r eirfa i siarad am eu gwaith, ond ni ddylid eu cosbi wrth asesu eu dealltwriaeth gerddorol. Mae'r canlynol yn ddisgrifiad o ferch 34 mis oed, ond gall fod yn berthnasol i unrhyw ddysgwr: 'Amy might find it difficult, just yet, to explain in words what she is doing and why, but this does not diminish the fact that she knows what she is doing because she does it' (Mills, 2005).

## Datblygu TGCh

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod**, **datblygu**, **creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

Mewn cerddoriaeth, bydd y dysgwyr yn datblygu ac yn defnyddio'u sgiliau TGCh trwy ddefnyddio technoleg cerddoriaeth i archwilio, creu, datblygu a gwireddu syniadau cerddorol.

Mae'r fframwaith sgiliau yn nodi dwy elfen o ddatblygu sgiliau TGCh – Dod o hyd i wybodaeth a syniadau a'u datblygu, a Chreu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau. Mae'r ail elfen o'r ddwy yn cwmpasu'r defnydd o dechnoleg cerddoriaeth i archwilio, creu, datblygu a gwireddu syniadau cerddorol. Mae TGCh yn grymuso dysgwyr a gall eu helpu i ddatblygu eu sgiliau cyfansoddi a gwireddu eu syniadau cerddorol, sy'n mynd y tu hwnt i'w sgiliau perfformio eu hunain. Mae'r rhaglenni astudio yn cynrychioli'r craidd anostyngadwy ac, am y rheswm hwn, nid ydyn nhw'n gwneud cyfeiriadau penodol at TGCh yng Nghyfnod Allweddol 2. Fodd bynnag, mae'r DVD yn dangos defnydd cefnogol o dechnoleg cerddoriaeth yn y ddau gyfnod allweddol.



Er enghraifft, mae 'Croeso Caerdydd!' (Mirain a Jac 3) yn dangos dysgwyr Cyfnod Allweddol 2 yn defnyddio recordydd llais digidol a meddalwedd samplu.



Mae 'Technoleg cerddoriaeth' (Daniel a Haf 5) yn dangos dysgwyr Cyfnod Allweddol 3 yn defnyddio O-Generator a Sibelius.

Yn y ddwy enghraifft, mae TGCh yn rhan o gwricwlwm cerddoriaeth cytbwys, ac yn cynorthwyo dysgwyr i greu cerddoriaeth.

## Cerddoriaeth a dysgu ar draws y cwricwlwm

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfle i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen, a hybu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, eu datblygiad personol a chymdeithasol a'u lles, a'u hymwybyddiaeth o'r byd gwaith.

### Y Cwricwlwm Cymreig

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

Mewn cerddoriaeth, bydd y dysgwyr yn perfformio ac yn gwrando ar gerddoriaeth Cymru, o'r gorffennol a'r presennol, gan gynnwys cerddoriaeth o'r traddodiad clasurol, cerddoriaeth werin a phoblogaidd, a cherddoriaeth o draddodiadau a diwylliannau eraill sy'n cynrychioli cymunedau Cymru. Gellir seilio gweithgareddau cyfansoddi ar symbyliadau nad ydyn nhw'n rhai cerddorol megis llenyddiaeth, celf weledol neu dirwedd ffisegol Cymru.



Mae'r DVD yn dangos dysgwyr yn gwrando ar gerddoriaeth o'r traddodiad clasurol, 'Agorawd Yr Wyddfa' gan Gareth Glyn (Owain 4), yn cymharu trefniadau poblogaidd a chlasurol o'r gân werin 'Sosban Fach' (Daniel a Haf 2), ac yn canu cerddoriaeth Gymraeg gyfoes sy'n cael ei hysbrydoli gan draddodiadau a diwylliannau eraill, sef 'Adiemus' gan Karl Jenkins (Mirain a Jac 1).



Gall y Cwricwlwm Cymreig ddarparu ysgogiadau cyffrous a pherthnasol ar gyfer gweithgareddau cyfansoddi hefyd. Mae 'Croeso Caerdydd!' (Mirain a Jac 3) yn dangos dysgwyr Cyfnod Allweddol 2 yn cyfansoddi cerddoriaeth i groesawu ymwelwyr i'r brifddinas.



Yn 'Dwi'n amau dim' (Daniel a Haf 8), mae dysgwyr Cyfnod Allweddol 3 yn defnyddio geiriau gan Celt i gyfansoddi eu cân pop eu hunain.

Mae'r adran 'Cyfeiriadau defnyddiol' yn rhestru adnoddau, gan gynnwys rhai sydd wedi'u comisiynu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac ACCAC (sydd bellach yn rhan o'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru) i ategu'r Cwricwlwm Cymreig mewn cerddoriaeth yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3. Nid yw'r deunyddiau yn yr adran hon ar gael o Lywodraeth Cynulliad Cymru (ar wahân i'r un cyntaf a gyhoeddwyd gan ACCAC). Maen nhw ar gael yn uniongyrchol o'r cyhoeddwyr neu drwy www.gwales.com

## Addysg bersonol a chymdeithasol

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i hyrwyddo eu hiechyd a'u lles emosiynol a'u datblygiad moesol ac ysbrydol; bod yn ddinasyddion gweithgar a hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; a pharatoi ar gyfer dysgu gydol oes.

Mae cerddoriaeth yn dod â nifer o fanteision yn ei sgîl o safbwynt iechyd a lles y dysgwyr, ac mae rhai o'r manteision hynny'n deillio'n uniongyrchol o'r pleser cynhenid sy'n gysylltiedig â chreu cerddoriaeth. Mae cerddoriaeth yn datblygu hunan-barch a hyder y dysgwyr ynghyd â'u gwytnwch a'u dyfalbarhad, eu hunanddisgyblaeth a'u hymroddiad. Mae cerddoriaeth yn cyfrannu at ddatblygiad ysbrydol ac emosiynol y dysgwyr hefyd, ac mae'n eu hannog i feithrin ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o'u diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill.

Mae creu cerddoriaeth yn cynnig buddiannau mawr i les corfforol ac emosiynol dysgwyr. Mae canu a chwarae offerynnau gydag eraill yn hwyl ac yn rhoi mwynhad. Yn fyr, mae'n gwneud i ni deimlo'n dda.

Mae gwaith ymchwil diweddar – er enghraifft *The power of music* gan S Hallam (Performing Rights Society, 2001) – yn amlygu cryfder dylanwad cerddoriaeth ar ein bywydau, a'i chyfraniad at ein datblygiad ysbrydol ac emosiynol.



Yn 'Croeso Caerdydd!' (Mirain a Jac 3), mae dysgwyr yn trafod y cysylltiadau rhwng cerddoriaeth a naws. Mae Mirain yn nodi ymateb ei chyfoedion i'w chyfansoddiad ac, yn ddiweddarach, mae'r dysgwyr yn trafod sut mae'r gerddoriaeth yn cyflawni hyn – cwestiynau cyfoethog sy'n gysylltiedig â'r rhaglen *Philosophy for Children* gan M Lipman, A M Sharp a F S Oscanyon (Temple University Press, 1996).

Mae'r holl broffiliau ar y DVD yn dangos dysgwyr yn datblygu hunan-barch a hyder, er bod adegau lle mae rhai o'r bobl ifanc yn eu harddegau, yn anochel, yn teimlo'n hunanymwybodol. Mae'r holl ddysgwyr dan sylw, waeth beth fo'u gallu, yn tyfu mewn gwydnwch a dyfalbarhad, hunanddisgyblaeth ac ymrwymiad. Mae buddiannau personol a chymdeithasol cerddoriaeth i bawb.

### Gyrfaoedd a'r byd gwaith

Dylai dysgwyr 11 i 19 oed gael cyfleoedd i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r maes gyrfaoedd a'r byd gwaith a sut mae eu hastudiaethau'n cyfrannu at baratoi ar gyfer bywyd gwaith.

Mewn cerddoriaeth, bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau a phriodoleddau gellir eu trosglwyddo, trwy greu cerddoriaeth yn unigol ac mewn grwpiau. Mae'r sgiliau a'r priodoleddau hyn yn helpu paratoi ar gyfer dysgu gydol oes, gwaith a hamdden, a gallan nhw gynnig llwybr i'r diwydiannau creadigol a diwylliannol sy'n ehangu'n gyson.

## Cynllunio'r cwricwlwm

Mae ysgolion yn rhydd i drefnu a darparu'r cwricwlwm cerddoriaeth yn y ffordd sy'n gweddu orau i'w hamgylchiadau penodol. Er nad oes unrhyw gyfyngiadau sy'n ymwneud â neilltuo amser, mae angen digon o amser i ddarparu'r cyfleoedd a nodir yn y rhaglenni astudio ac i gyflawni'r safonau a nodir yn y disgrifiadau lefel. Dylai cynlluniau dysgu gynnwys cyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr ymarfer ac ailddefnyddio'r Sgiliau a'r Ystod o fewn y rhaglenni astudio. Meddyliwch yn ofalus am y cydbwysedd rhwng ehangder a manylder. Roedd rhai o'r athrawon a oedd yn gweithio ar y deunyddiau canllawiau hyn yn ei chael yn ddefnyddiol cwmpasu llai o ddeunydd, ond gan roi mwy o amser i ddysgwyr atgyfnerthu eu dysgu. Lle ceir hyblygrwydd, ceisiwch deilwra'r broses o drefnu'r wers i'r dasg, a chofiwch, er bod angen cyfnodau estynedig o amser ar gyfer rhai gweithgareddau, mae eraill yn cael budd o wneud ychydig bach yn aml.

## Pontio

Mae'r rhaglenni astudio ar gyfer cerddoriaeth yn fwriadol hyblyg ac yn galluogi ysgolion i ddangos eu cryfderau a diwallu anghenion dysgwyr. Er bod hyn o gymorth i'r gwaith cynllunio, gall arwain at ddysgwyr â phrofiadau gwahanol yn dod at ei gilydd ar gyfnodau pontio allweddol. Mae gwaith cynllunio traws-gyfnod yn hanfodol er mwyn sicrhau parhad a chynnydd, ac i'ch helpu i adeiladu ar y dysgu a'r addysgu a'i rhagflaenodd. Drwy waith cynllunio ar y cyd, gallai cerddoriaeth ym Mlwyddyn 3, er enghraifft, adlewyrchu'r dull gweithredu a ddefnyddir ar gyfer Datblygu Creadigol mewn lleoliadau Cyfnod Sylfaen partner. Gallai cerddoriaeth ym Mlwyddyn 7 adlewyrchu cynnwys cerddoriaeth a'r broses o'i hamserlennu mewn ysgolion cynradd partner.

Mae'r pum enghraifft ganlynol yn rhoi gwybodaeth bellach am y strategaethau pontio a ddefnyddir gan yr athrawon sy'n ymwneud â'r deunyddiau canllaw hyn.

### Enghraifft 1 (Cynradd)

Mae cydlynydd cerddoriaeth yr ysgol gynradd hon yn defnyddio nifer o ddeunyddiau asesu dewisol ACCAC drwy gydol Cyfnod Allweddol 2. Asesir gwaith dysgwyr drwy ddefnyddio meini prawf y deunyddiau hyn, ac anfonir enghreifftiau o ddeilliannau dysgwyr ymlaen at ysgolion uwchradd sy'n bartneriaid iddyn nhw. Mae defnyddio'r deunyddiau hyn wedi helpu cydweithwyr cynradd ac uwchradd i wella eu dealltwriaeth o nodweddion y lefelau sydd, yn ei dro, wedi cynorthwyo pontio rhwng cyfnodau.

### Enghraifft 2 (Cynradd)

Mae athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n bartneriaid yn dewis dwy gân fel ffocws i'w gwaith pontio. Mae dysgwyr Blwyddyn 6 yn dysgu'r caneuon yn eu hysgolion cynradd cyn ymweld â'r ysgol uwchradd. Caiff y caneuon eu datblygu a'u coethi yn yr ysgol uwchradd ar ddiwrnod yr ymweliad. Mae athrawon adran gerddoriaeth yr ysgol uwchradd hefyd yn ymweld â'r ysgolion cynradd sy'n bartneriaid iddi, ac yn darparu gweithdai cerddoriaeth i ddysgwyr Blwyddyn 6 gyda chymorth athrawon yr ysgolion cynradd. Mae'r ymweliadau hyn yn rhoi cyfle i athrawon cynradd rannu nodiadau a thystiolaeth arall gydag athrawon uwchradd.

## Enghraifft 3 (Uwchradd)

Mae athrawon cerddoriaeth yr ysgol uwchradd hon yn ymweld ag ysgolion cynradd sy'n bartneriaid iddi i ddarparu uned waith chwech wythnos yn ystod tymor yr haf. Mae'r uned waith yn seiliedig ar *Sound to Game* – meddalwedd cyfansoddi a ddatblygwyd gan Brifysgol Manceinion. Mae dysgwyr yn defnyddio allweddellau a synau yn yr amgylchedd i gyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer gêm wedi'i hanimeiddio. Caiff synau a phatrymau dysgwyr eu recordio, ac eir â nhw i adran gerddoriaeth yr ysgol uwchradd i'w llwytho i fyny ar eu cyfrifiaduron. Ar ddiwedd yr uned, mae dysgwyr Blwyddyn 6 yn ymweld â'r ysgol uwchradd. Drwy chwarae'r gêm ar gyfrifiadur, mae'r dysgwyr yn creu cyfansoddiad aleatorig. Mae'r hyn maen nhw'n eu gwneud yn y gêm yn pennu sut caiff y synau a'r patrymau eu rhoi at ei gilydd, a sut mae'r gerddoriaeth yn swnio.

## Enghraifft 4 (Uwchradd)

Mae pennaeth cerddoriaeth yr ysgol uwchradd hon yn cael deialog barhaus â'r ysgolion cynradd sy'n bartneriaid iddi, ac yn benthyca adnoddau i'r ysgolion cynradd i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth ac mewn cyngherddau. Mae athrawon uwchradd yn ymweld ag ysgolion cynradd sy'n bartneriaid iddyn nhw i arsylwi gwersi cerddoriaeth, ac maen nhw'n eiddgar i ddysgu o ddulliau addysgu ac arddulliau darparu athrawon cynradd. Nod y pennaeth cerddoriaeth yw adolygu ei chynlluniau dysgu Cyfnod Allweddol 3 i ystyried yr ymweliadau hyn, er mwyn gwella'r cyfleoedd i ddysgwyr adeiladu ar y sgiliau a gawsan nhw yng Nghyfnod Allweddol 2 a'u datblygu ymhellach.

## Enghraifft 5 (Uwchradd)

Mae pennaeth cerddoriaeth yr ysgol uwchradd hon yn ymweld â dysgwyr Blwyddyn 6 ym mhob ysgol gynradd sy'n bartner iddi, ac yna'n gwahodd y dysgwyr Blwyddyn 6 i ymweld â'r adran yn yr ysgol uwchradd yn eu tro. Er mwyn hybu parhad mewn gwaith lleisiol, mae'r pennaeth cerddoriaeth wrthi'n paratoi llyfryn o ganeuon i ddysgwyr Blwyddyn 6 a 7. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i rannu repertoire cyffredin ar draws y cyfnodau cynradd ac uwchradd.

# *Adran* 2

## Disgwyliadau a dilyniant mewn cerddoriaeth

Mae’r disgrifiadau lefel ar gyfer cerddoriaeth wedi’u nodi mewn un targed cyrhaeddiad. Maen nhw’n dangos cynnydd eang yn y tri sgìl cerddorol – Perfformio, Cyfansoddi a Gwerthuso – ac yn yr amrywiaeth o gyd-destunau.

Ym mhob gweithgaredd cerddorol, bydd dysgwyr yn dangos cynnydd yn y ffordd maen nhw’n rheoli, defnyddio a deall yr elfennau cerddorol – traw, parhad, cyflymder, ansawdd, gwead, dynameg, strwythur a distawrwydd. Mae’r tabl dros y tudalennau canlynol yn diffinio pob elfen, ac yn rhoi rhai enghreifftiau o gynnydd o ran dealltwriaeth.

Mae’r disgrifiadau lefel a’r tabl wedi’u nodi ar ffurf linellol er eglurder. Mewn cerddoriaeth, anaml bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd mor daclus nac yn symud yn gyfan gwbl o un lefel i’r llall mewn un cam. Gall dysgwyr wneud cynnydd cyflymach mewn un sgìl cerddorol nag un arall, a gallan nhw ddangos nodweddion o fwy nag un disgrifiad lefel. Mae’n cymryd amser i ddysgwyr ddatblygu a gwneud cynnydd mewn cerddoriaeth, ac mae ailystyried profiadau cerddorol yn aml yn hanfodol er mwyn i ddysgwyr atgyfnerthu eu dealltwriaeth. Yn ymarferol, mae cynnydd mewn cerddoriaeth yn dueddol o fod yn ‘droellog’ ei natur yn hytrach na’n llinellol.

**Elfennau cerddorol – dilyniant eang o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 3**

| Elfen gerddorol | Diffiniad | Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r dysgwyr yn rheoli, defnyddio ac yn dangos dealltwriaeth o: | Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae'r dysgwyr yn rheoli, defnyddio ac yn dangos dealltwriaeth o: | Yng Nghyfnod Allweddol 3, mae'r dysgwyr yn rheoli, defnyddio ac yn dangos dealltwriaeth o: |
|---|---|---|---|---|
| **traw** | uchder ac iselder seiniau mewn perthynas â'i gilydd | • seiniau uchel<br>• seiniau isel<br>• symud i fyny/lawr<br>• patrymau melodig byrion | • patrymau melodig<br>• triadau syml a dilyniannau cordiau<br>• moddau<br>• symud fesul cam a naid | • ffurf felodig<br>• cordiau a harmoni<br>• moddau a graddfeydd<br>• cyfyngau<br>• cytgordiau/ anghytgordiau<br>• gwrthdro/ ôl-rediad |
| **parhad** | amseru mewn cerddoriaeth a hyd seiniau mewn perthynas â'i gilydd | • curiad<br>• seiniau hir<br>• seiniau byr<br>• patrymau rhythmig | • curiad<br>• mydr syml<br>• rhythm<br>• cyfuniadau o rythmau | • curiad<br>• mydr (gan gynnwys mydrau mwy cymhleth)<br>• rhythm<br>• patrymau cymhleth/ afreolaidd<br>• polyrhythmau |
| **cyflymder** | cyflymder y curiad a chyfradd y newid harmonig | • curiad cyflym<br>• curiad araf | • eithaf cyflym/ cyflym iawn<br>• eithaf araf/araf iawn<br>• newidiadau mewn cyflymder o fewn darn | • graddiadau tempo<br>• cyfradd y newid harmonig |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **ansawdd** | ansawdd sain neu ansawdd tôn | • seiniau metel/pren/arall<br>• seiniau taro/ysgwyd/crafu<br>• seiniau yn yr amgylchedd | • offerynnau traw ac offerynnau di-draw<br>• lleisiau<br>• seiniau a gynhyrchir yn electronig | • seiniau offerynnol/lleisiol<br>• ffyrdd nodweddiadol o ganu offerynnau/lleisio<br>• cyfuniadau o offerynnau/lleisiau/ffynonellau eraill<br>• seiniau synthyseiddiedig |
| **gwead** | canlyniad cyfuno ansawdd, alawon, rhythmau, cordiau, ac ati | • tenau<br>• trwchus<br>• un sain/llinell neu fwy | • alaw a chyfeiliant<br>• dwy linell neu fwy wedi'u perfformio gyda'i gilydd | • alaw unigol<br>• cyfeiliannau rhythmig a chordiol<br>• polyffoni<br>• dosraniad seiniau gan gynnwys cydbwysedd a dwysedd |
| **dynameg** | cryfder a distawrwydd seiniau mewn perthynas â'i gilydd | • cryf<br>• tawel<br>• cryfhau/tawelu | • eithaf cryf/cryf iawn<br>• eithaf tawel/tawel iawn<br>• acenion | • graddiadau cryfder<br>• graddiadau tawelwch<br>• acenion<br>• cydbwysedd dynameg o fewn y gwead |
| **strwythur** | trefniant a chydberthynas y rhannau mewn darn | • patrwm<br>• yr un fath (ailadrodd)<br>• gwahanol (cyferbynnu) | • ailadrodd a chyferbynnu<br>• ffurfiau syml<br>• brawddegu<br>• dyfeisiau fel drôn ac ostinato | • ailadrodd a chyferbynnu<br>• ffurfiau<br>• brawddegu<br>• amrywio a datblygu<br>• efelychu a dilyniant<br>• dyfeisiau fel gwrthdro/ôl-rediad |
| **distawrwydd** | absenoldeb sain | • sain<br>• distawrwydd | • y defnydd o ddistawrwydd fel effaith | • y defnydd o ddistawrwydd fel effaith |

## Nodweddion lefel

Mae’r tablau dros y tudalennau nesaf yn dangos y nodweddion lefel ar gyfer Perfformio, Cyfansoddi a Gwerthuso. Mae pob disgrifiad lefel yn adeiladu ar yr un blaenorol, fel na chaiff pob agwedd ar gynnydd eu hailadrodd ym mhob lefel.

Bydd adnabod nodweddion lefel o’r disgrifiadau lefel yn eich helpu gydag asesiad ffurfiannol a chyfunol. Gwnaeth llawer o’r athrawon a gyfrannodd at lunio’r canllawiau hyn ddefnyddio nodiadau maes i’w helpu i gadw cofnod o gynnydd dysgwyr mewn cerddoriaeth. Yn hytrach na cheisio asesu pob dysgwr ar amser penodedig, nododd yr athrawon gyflawniadau allweddol gan ddysgwyr wrth iddyn nhw godi. Byddwch yn effro i ganlyniadau annisgwyl, oherwydd, mewn cerddoriaeth, mae’r rhain yn aml yn datgelu mwy na’ch amcanion gorau a gynlluniwyd.

Yn rhai o’r proffiliau (Mirain a Jac, a Daniel a Haf), mae’r dysgwyr o’r un dosbarth ac fe’u gwelir yn aml yn gweithio ar dasgau tebyg. Mae dangos ymatebion gwahanol i’r un dasg, yn gymorth i ddangos cynnydd.

Mae’r DVD yn dangos y nodweddion lefel ar gyfer y rhan fwyaf o waith dysgwyr, ond nid gwaith pob un ohonyn nhw. Mewn rhai enghreifftiau, er enghraifft gwaith Daniel yn ‘Technoleg cerddoriaeth’ (Daniel a Haf 5), mae ymatebion dysgwyr yn rhy fyr i ddangos y nodweddion lefel mewn modd dibynadwy neu ystyrlon. Mae enghreifftiau o’r fath wedi’u cadw, lle maen nhw’n dangos agweddau ar y rhaglenni astudio neu y fframwaith sgiliau. Nid oes angen i chi edrych am nodweddion lefel ym mhob darn unigol o waith.

## Nodweddion lefel ar gyfer Perfformio

Mae’r nodweddion lefel ar gyfer Perfformio yn dangos tri cham cynnydd eang:

- safon neu ansawdd y perfformio
- cymhlethdod y gerddoriaeth a gaiff ei pherfformio
- ystod neu ehangder y gerddoriaeth a gaiff ei pherfformio.

Yn syml, mae hyn yn golygu bod dysgwyr sy’n gweithio ar y lefelau is yn dangos rhwyddineb a mynegiant prin wrth berfformio ystod o gerddoriaeth llai heriol, tra bo dysgwyr sy’n gweithio ar y lefelau uwch yn dangos rhwyddineb a sensitifrwydd cynyddol wrth berfformio cerddoriaeth fwy heriol mewn amrywiaeth o arddulliau.

Yn ymarferol, wrth gwrs, ni fydd cynnydd wrth berfformio bob amser mor glir â hyn. Felly efallai bydd dysgwyr sydd fel arfer yn dewis y rhan ‘anodd’ mewn trefniant cerddorfa ystafell ddosbarth ond bydd yn rhaid iddyn nhw golli nodau er mwyn cadw amser yn dangos nodweddion Lefel 5, ochr yn ochr â’r dysgwyr hynny sydd fel arfer yn syniad yn rhy isel am eu gallu ac yn dewis cerddoriaeth llai heriol, ond yn gallu perfformio eu rhan yn dda iawn o ganlyniad i hynny.

Er mwyn adnabod cynnydd mewn Perfformio, mae Lefelau 1 i 6 yn cyfeirio’n benodol at ganu a chwarae. O Lefel 7 ymlaen, mae’r nodweddion lefel ar gyfer Perfformio o natur fwy cyfannol.

| Nodweddion lefel – canu | | Enghreifftiau ar y DVD | | |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel 1** | Bydd y disgyblion yn canu ag ynganiad clir, gan berfformio'n gryf neu'n dawel yn ôl y cyfarwyddyd a roddir. | Dim enghraifft | | |
| **Lefel 2** | Bydd y disgyblion yn canu caneuon sy'n cynnwys amrediad cyfyngedig o nodau, gan gadw mewn tiwn ar y cyfan. | Dim enghraifft | | |
| **Lefel 3** | Bydd y disgyblion yn canu caneuon mewn tiwn ac yn rheoli eu hanadlu er mwyn gwella eu perfformiad. | Daniel, Pennill 2, 'We Go Together' (Daniel a Haf 1) | | |
| **Lefel 4** | Bydd y disgyblion yn canu, gan ddangos rheolaeth ar elfennau cerddorol. Byddant yn cynnal rhan fel aelod o grŵp mewn rhan-gân syml. | Owain, 'Trên y Gair' (Owain 1) | Mirain, 'Adiemus' (Mirain a Jac 1) | Mirain, 'Ffa la la' (Mirain a Jac 6) |
| **Lefel 5** | Bydd y disgyblion yn dangos rhwyddineb wrth ganu repertoire eang. Byddant yn cynnal rhan fel aelod o grŵp mewn rhan-gân. | Mirain a Jac, 'Ffa la la' (Mirain a Jac 6) | Daniel, Pennill 1, 'We Go Together' (Daniel a Haf 1) | |
| **Lefel 6** | Bydd y disgyblion yn dangos rhwyddineb, sylw i fanylion a, lle bo'n briodol, ymatebolrwydd i eraill wrth ganu repertoire sydd yn ehangu. Byddant yn cynnal rhan fel aelod o grŵp mewn rhan-gân a/neu'n canu unawd fer. | Jac, 'Adiemus' (Mirain a Jac 1) | Haf, 'We Go Together' (Daniel a Haf 1) | Charlotte, 'Chwarae'n Troi'n Chwerw' (Charlotte 1) |

| Nodweddion lefel – chwarae | | Enghreifftiau ar y DVD | |
|---|---|---|---|
| **Lefel 1** | Bydd y disgyblion yn clapio neu'n tapio â churiad cyson mewn amseriad ag eraill. | Dim enghraifft | |
| **Lefel 2** | Bydd y disgyblion yn chwarae patrwm syml ar offeryn taro gan gadw amser i guriad cyson. | Dim enghraifft | |
| **Lefel 3** | Bydd y disgyblion yn chwarae rhan offerynnol gan ddefnyddio amrediad cyfyngedig o nodau. | Owain, 'Trên y Gair' (Owain 1) | Owain, 'Fi o Dduw' (Owain 2) |
| **Lefel 4** | Bydd y disgyblion yn chwarae, gan ddangos rheolaeth ar elfennau cerddorol. Byddant yn cynnal rhan offerynnol mewn darn ar gyfer grŵp. | Mirain, 'Arriba' (Mirain a Jac 2) | Daniel, 'Sosban Fach' (Daniel a Haf 2) |
| **Lefel 5** | Bydd y disgyblion yn dangos rhwyddineb wrth chwarae repertoire eang. Byddant yn cynnal rhan offerynnol unigol mewn darn ar gyfer grŵp. | Jac, 'Arriba' (Mirain a Jac 2) | Mirain, 'Croeso Caerdydd!' (Mirain a Jac 3) |
| **Lefel 6** | Bydd y disgyblion yn dangos rhwyddineb, sylw i fanylion a, lle bo'n briodol, ymatebolrwydd i eraill wrth chwarae repertoire sydd yn ehangu. Byddant yn chwarae'n unigol, naill ai mewn darn ar gyfer grŵp neu fel unawdydd. | Haf, 'Sosban Fach' (Daniel a Haf 2) | Charlotte, 'Don't Lie' (Charlotte 2) |

| Nodweddion lefel – canu/chwarae | | Enghreifftiau ar y DVD | |
|---|---|---|---|
| **Lefel 7** | Bydd y disgyblion yn perfformio â rhywfaint o ymwybyddiaeth o arddull a, lle bo'n briodol, ymdeimlad o ensemble. | Haf, 'Only Love' (Daniel a Haf 3) | Haf, 'Dwi'n amau dim' (Daniel a Haf 8) |
| **Lefel 8** | Bydd y disgyblion yn perfformio repertoire sydd yn dechnegol anodd gan ddangos ymwybyddiaeth o arddull, sensitifrwydd o ran dehongli a, lle bo'n briodol, rhywfaint o empathi â pherfformwyr eraill. | Dim enghraifft | |
| **Perfformiad Eithriadol** | Bydd y disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth o arddull ac yn dehongli'n sensitif wrth berfformio repertoire sydd yn dechnegol ac yn gerddorol anodd. Byddant yn perfformio unawdau mewn modd argyhoeddiadol ac yn dangos empathi â pherfformwyr eraill mewn cerddoriaeth ensemble. | Dim enghraifft | |

## Nodweddion lefel ar gyfer Cyfansoddi

Mae'r nodweddion lefel ar gyfer Cyfansoddi yn canolbwyntio ar gynnydd mewn cyfansoddiadau a gwblhawyd gan ddysgwyr. Mae'r term 'cyfansoddiadau' yn cyfeirio at gynnyrch unrhyw ddull o greu a datblygu syniadau creadigol, h.y. mae'n cynnwys creu cerddoriaeth yn fyrfyfyr a threfniadau. Gellir edrych ar ansawdd y canlyniad drwy'r modd mae'r dysgwyr yn:

- defnyddio adnoddau
- rheoli'r cyfrwng
- trefnu deunydd cerddorol
- datblygu a mireinio syniadau cerddorol
- dangos cydlyniant a chysondeb mewn cyfansoddiadau a gwblhawyd.

Bydd edrych ar y broses gyfansoddi yn eich helpu i adnabod cynnydd yn y canlyniad. O ystyried gwneir y rhan fwyaf o waith cyfansoddi mewn grŵp, bydd edrych ar rywfaint o'r broses hefyd yn hanfodol er mwyn eich galluogi i benderfynu ar gyfraniad pob dysgwr. Roedd athrawon a oedd yn gweithio ar y canllawiau hyn yn ei chael yn ddefnyddiol cynllunio seibiannau yn rheolaidd. Mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr siarad am eu cyfraniad mewn grŵp ac i'r athro/athrawes a dysgwyr eraill roi adborth ar gynnydd.

Er bod dysgwyr fel arfer yn gweithio gydag eraill ar Lefelau 1 i 5, mae'r enghreifftiau a nodir dros y tudalennau nesaf fel nodweddion Lefelau 3 i 5 yn ymwneud ag unigolion yn creu cerddoriaeth yn fyrfyfyr. Er mwyn cyrraedd Lefel 6, mae'n ofynnol i ddysgwyr gyfansoddi'n unigol. Nid yw hyn, wrth gwrs, yn atal gwaith grŵp, fel y gwelir yn yr enghreifftiau o nodweddion Lefelau 6 ac 8.

| Nodweddion lefel – Cyfansoddi | | Enghreifftiau ar y DVD | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Lefel 1** | Wedi archwilio amrywiaeth o ffynonellau sain, bydd y disgyblion yn dewis seiniau addas mewn ymateb i symbyliad penodol. | Dim enghraifft | | | |
| **Lefel 2** | Bydd y disgyblion yn dewis ac yn trefnu seiniau mewn ymateb i symbyliad penodol ac yn creu patrymau melodig byr, gan ddangos rhywfaint o reolaeth ar elfennau cerddorol. | Dim enghraifft | | | |
| **Lefel 3** | Bydd y disgyblion yn gweithio gydag eraill i greu cyfansoddiadau sydd â ffurf gerddorol syml gan adolygu eu syniadau pan fo angen. | Mirain, 'Arriba' (Mirain a Jac 2) | Owain, 'Fi o Dduw' (Owain 2) | Owain, 'Cerdd Heini' (Owain 3) | |
| **Lefel 4** | Gan weithio gydag eraill, bydd y disgyblion yn dyfeisio ac yn ymgymryd â datblygiadau syml mewn perthynas â syniadau cerddorol i gynhyrchu cyfansoddiadau, gan ddangos dealltwriaeth a defnydd priodol o elfennau cerddorol. | Mirain, 'Croeso Caerdydd!' (Mirain a Jac 3) | Mirain, *The Snow Spider* (Mirain a Jac 4) | Daniel, 'Grwndfas' (Daniel a Haf 4) | |
| **Lefel 5** | Gan weithio gydag eraill, bydd y disgyblion yn datblygu ac yn trefnu deunydd o fewn strwythurau cerddorol priodol a byddant yn gwerthuso ac yn mireinio eu cyfansoddiadau. | Jac, 'Arriba' (Mirain a Jac 2) | Jac, 'Croeso Caerdydd!' (Mirain a Jac 3) | Jac, *The Snow Spider* (Mirain a Jac 4) | Daniel, 'Sosban Fach' (Daniel a Haf 2) |

| Nodweddion lefel – Cyfansoddi | | Enghreifftiau ar y DVD | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Lefel 6** | Bydd y disgyblion yn cynhyrchu amrywiaeth o gyfansoddiadau, gan gynnwys darnau a gyfansoddwyd yn unigol, sydd yn cynnal ac yn datblygu syniadau cerddorol. | Haf, 'Grwndfas' (Daniel a Haf 4) | Charlotte, 'Dawnsio yn yr haul' (Charlotte 3) | Charlotte, 'So Blue' (Charlotte 4) | |
| **Lefel 7** | Bydd y disgyblion yn cynhyrchu cyfansoddiadau cydlynol, gan ddangos lefel uchel o ddealltwriaeth o elfennau cerddorol a rheolaeth arnynt. | Haf, 'Sosban Fach' (Daniel a Haf 2) | Haf, 'Technoleg cerddoriaeth' (Daniel a Haf 5 | | |
| **Lefel 8** | Bydd y disgyblion yn cynhyrchu cyfansoddiadau argyhoeddiadol sydd yn dangos cysondeb cyffredinol o ran arddull. | Haf, 'Dwi'n amau dim' (Daniel a Haf 8) | | | |
| **Perfformiad Eithriadol** | Bydd y disgyblion yn cynhyrchu cyfansoddiadau sydd yn dangos datblygiad cydlynol o ran syniadau cerddorol, cysondeb arddull a rhywfaint o unigoliaeth. | Dim enghraifft | | | |

## Nodweddion lefel ar gyfer Gwerthuso

Mae'r nodweddion lefel ar gyfer Gwerthuso yn dangos dau lwybr eang o ran cynnydd:

- gwahaniaethu o fewn yr elfennau cerddorol
- adnabod nodweddion a llunio barn.

Wrth werthuso eu cerddoriaeth eu hunain a cherddoriaeth eraill, edrychwch ar allu dysgwyr i wahaniaethu'n gynyddol gynnil o fewn yr elfennau cerddorol, i ganolbwyntio ar wrando ar nodweddion y gerddoriaeth ac i lunio barn fanwl am gerddoriaeth mewn amrywiaeth o arddulliau.

Roedd llawer o'r athrawon a oedd yn gweithio ar y canllawiau hyn yn ei chael yn ddefnyddiol i ddefnyddio byrddau gwyn bach i werthuso. Mae dysgwyr yn gwneud nodiadau wrth wrando, ac yn defnyddio'r rhain i hybu trafodaethau mewn parau, mewn grwpiau neu fel dosbarth cyfan. Cofiwch edrych am dystiolaeth hefyd o sgiliau gwerthuso dysgwyr yn eu gwaith perfformio a chyfansoddi.

Mae tasgau hunanasesu rhagweladwy ar ddiwedd pob uned yn wrthgynhyrchiol ar y cyfan ac yn aml yn mynnu ymatebion digyffro. Mae angen dull cwestiynu medrus er mwyn ehangu dealltwriaeth dysgwyr, yn enwedig dysgwyr sy'n gweithio ar lefelau is.

| Nodweddion lefel – Gwerthuso | | Enghreifftiau ar y DVD | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Lefel 1** | Bydd y disgyblion yn adnabod ac yn ymateb i seiniau a cherddoriaeth o safbwynt elfennau megis dynameg, cyflymder, parhad ac ansawdd. | Dim enghraifft | | | |
| **Lefel 2** | Bydd y disgyblion yn gwahaniaethu'n fras o fewn elfennau cerddorol ac yn defnyddio termau syml i ddisgrifio sut y caiff yr elfennau hynny eu defnyddio at ddibenion mynegi. | Dim enghraifft | | | |
| **Lefel 3** | Bydd y disgyblion yn gwahaniaethu o fewn elfennau cerddorol ac yn trafod pa mor effeithiol y caiff yr elfennau hynny eu defnyddio. | Owain, 'Trên y Gair' (Owain 1) | Owain, 'Agorawd Yr Wyddfa' (Owain 4) | Owain, 'Yma o Hyd' (Owain 5) | Mirain, *The Snow Spider* (Mirain a Jac 4) |
| **Lefel 4** | Bydd y disgyblion yn gwahaniaethu o fewn elfennau cerddorol wrth ddisgrifio a chymharu gwahanol fathau o gerddoriaeth a llunio barn amdanynt. | Mirain, *Palladio* (Mirain a Jac 5) | Daniel, 'Pa un sydd yn wahanol?' (Daniel a Haf 6) | Daniel, 'The Sabre Dance' (Daniel a Haf 7) | |
| **Lefel 5** | Bydd y disgyblion yn gwahaniaethu o fewn elfennau cerddorol ac yn adnabod prif nodweddion gwahanol fathau o gerddoriaeth ac yn eu gwerthuso. | Jac, 'Croeso Caerdydd!' (Mirain a Jac 3) | Jac, *The Snow Spider* (Mirain a Jac 4) | Jac, *Palladio* (Mirain a Jac 5) | Daniel, 'Sosban Fach' (Daniel a Haf 2) |

| Nodweddion lefel – Gwerthuso | | Enghreifftiau ar y DVD | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Lefel 6** | Bydd y disgyblion yn gwahaniaethu o fewn elfennau cerddorol ac yn adnabod nodweddion arbennig gwahanol fathau o gerddoriaeth. | Charlotte, 'St. Louis Blues' (Charlotte 5) | | | |
| **Lefel 7** | Trwy ddadansoddi â'r glust, bydd y disgyblion yn adnabod nodweddion arbennig gwahanol fathau o gerddoriaeth ac yn llunio barn fanwl amdanynt. | Haf, 'Sosban Fach' (Daniel a Haf 2) | Haf, 'Pa un sydd yn wahanol?' (Daniel a Haf 6) | Charlotte, 'Earth Angel' (Charlotte 6) | |
| **Lefel 8** | Trwy ddadansoddi â'r glust, bydd y disgyblion yn adnabod nodweddion arbennig gwahanol fathau o gerddoriaeth ac yn eu gwerthuso'n feirniadol. | Dim enghraifft | | | |
| **Perfformiad Eithriadol** | Bydd y disgyblion yn gwneud dadansoddiadau clywedol manwl ac yn ffurfio gwerthusiadau beirniadol a chynnil mewn perthynas â gwahanol fathau o gerddoriaeth. | Dim enghraifft | | | |

### Dilyniant mewn tasgau

Mae dilyniant mewn sgiliau ac ystod gerddorol yn gysylltiedig â chymhlethdod y tasgau dan sylw. Mae'r framwaith sgiliau yn rhoi canllawiau cyffredinol defnyddiol ar gynnydd mewn tasgau.

> At ei gilydd, mae dilyniant yn y tasgau yn symud o'r diriaethol i'r haniaethol; o'r syml i'r cymhleth; o'r personol i'r 'darlun mawr'; o'r cyfarwydd i'r anghyfarwydd. Wrth i ddysgwyr ddatblygu, maent yn symud o sefyllfa lle mae angen cefnogaeth arnynt i sefyllfa lle maent yn gweithio'n fwy annibynnol. Maent yn symud o sefyllfa lle maent yn gwrando ar eraill ac yn rhyngweithio â nhw mewn ffordd gyffredinol i sefyllfa lle maent yn dewis gweithio gydag eraill yn rhan o strategaeth fwriadol i feithrin dealltwriaeth. Maent felly'n datblygu'n ddysgwyr annibynnol a rhyngddibynnol.

Efallai byddwch chi'n ei chael yn ddefnyddiol ystyried hyn wrth gynllunio dysgu ac addysgu ar gyfer y cwricwlwm diwygiedig.

### Dilyniant mewn sgiliau ehangach

Mae'r sgiliau ehangach sy'n ymwneud â datblygu meddwl a chyfathrebu yn hanfodol i'r disgrifiadau lefel ar gyfer cerddoriaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r iaith o fewn y disgrifiadau lefel cerddoriaeth yn ymwneud yn uniongyrchol â'r fframwaith sgiliau, ac mae'r rhan fwyaf yn cyfeirio at ddefnyddio sgiliau meddwl. Er bod datblygu TGCh wedi'i gynnwys yn y rhaglen astudio ar gyfer Cyfnod Allweddol 3, nid oes cyfeiriad at ddatblygu TGCh yn y targed cyrhaeddiad cerddoriaeth. Y rheswm dros hyn yw er bod TGCh yn gallu ategu dysgu mewn cerddoriaeth, nid yw dilyniant mewn cerddoriaeth yn ddibynnol ar ddilyniant mewn TGCh.

# *Adran* 3

## Defnyddio'r disgrifiadau lefel yng Nghyfnod Allweddol 2

Nid yw'n ofynnol llunio barn diwedd cyfnod allweddol mewn cerddoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 2. Fodd bynnag, bydd gwybod am nodweddion y disgrifiadau lefel yn eich helpu i adnabod cryfderau'r dysgwyr, yn ogystal â'r meysydd y mae angen eu gwella, a bydd yn eich helpu i gynllunio ar gyfer dilyniant.

Efallai y bydd y pwyntiau canlynol yn ddefnyddiol i chi pan fyddwch yn ystyried y proffiliau yn yr adran hon.

- Ni chaiff y proffiliau dysgwr eu cyflwyno fel model ar gyfer y modd y dylech gasglu tystiolaeth am eich dysgwyr. Materion i athrawon sy'n gweithio o fewn polisi ysgol y cytunwyd arno yw penderfyniadau ynghylch casglu tystiolaeth a phenderfyniadau ynghylch diben y dystiolaeth honno a'r defnydd a wneir ohoni.
- Mae'r sylwadau a geir ynghylch y darnau o waith wedi'u hysgrifennu er mwyn tynnu sylw at briodweddau arbennig sy'n perthyn i'r gwaith, ac mae'r sylwadau'n cysylltu â nodweddion y disgrifiadau lefel. Nid bod yn enghraifft o adroddiad i rieni/warcheidwaid yw eu bwriad.
- Rhan fach yn unig o'r wybodaeth a'r profiadau sy'n perthyn i wybodaeth athrawon o bob dysgwr yw'r deunyddiau a geir ym mhob proffil dysgwr. Nid yw'r deunyddiau'n adlewyrchu'r holl wybodaeth y byddwch wedi ei chasglu am bob dysgwr dros amser ac ar draws ystod o wahanol gyd-destunau. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i adnabod cryfderau'r dysgwyr a'r meysydd y mae angen eu datblygu, a chynllunio ar gyfer dilyniant.
- Efallai y bydd angen i rai o'ch dysgwyr ddefnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu eraill er mwyn dangos beth maen nhw'n ei wybod, beth maen nhw'n ei ddeall a beth maen nhw'n gallu'i wneud.



# Owain

## Nodweddion o Lefelau 3 a 4

Mae Owain yn ddysgwr 11 oed yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae ei athrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Owain nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Owain ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae proffil Owain yn dangos rhai nodweddion o Lefelau 3 a 4, ond mae'n dangos nodweddion Lefel 3 yn bennaf.

Mae Owain yn mwynhau canu ac mae'n fodlon rhannu syniadau pan ofynnir iddo wneud hynny. Mae ganddo ymwybyddiaeth dda o rythm ac mae'n mwynhau dawnsio i gerddoriaeth hip-hop y tu allan i'r ysgol.

### 'Trên y Gair' (Owain 1)

Mae'r dysgwyr yn canu'r gân gospel 'Trên y Gair' yn unsain ac fel tôn gron mewn dwy ran. Pan fyddan nhw'n gyfarwydd iawn â'r gân, maen nhw'n ychwanegu cyfeiliant gan ddefnyddio offerynnau taro wedi'u tiwnio a heb eu tiwnio.

Mae Owain yn canu *gan ddangos rheolaeth ar elfennau cerddorol* ac mae'n *cynnal rhan fel aelod o grŵp mewn rhan-gân syml* (nodwedd o Lefel 4). Ar ôl canu mae'n *gwerthuso'u gwaith perfformio er mwyn gwella* (Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio, Perfformio 3) ac yn nodi gellid bod wedi gwella'r perfformiad trwy wenu mwy.

Fel cyfeiliant i'r gân, mae Owain yn *chwarae rhan offerynnol* ar glockenspiel *gan ddefnyddio amrediad cyfyngedig o nodau* (nodwedd o Lefel 3). Ar ôl chwarae, mae'n gwneud sylwadau ar y rhan bas ac yn *gwahaniaethu o fewn elfennau cerddorol* (nodwedd o Lefel 3).

**Camau nesaf:**

Mae angen i Owain rhoi cynnig ar ran anoddach ar y glockenspiel y tro nesaf maen nhw'n canu'r gân.

### 'Fi o Dduw' (Owain 2)

Gan ddefnyddio offerynnau taro wedi'u tiwnio a heb eu tiwnio, mae'r dysgwyr yn chwarae trefniant o 'Fi o Dduw' i gyfeiliant trac. Mae'r dysgwyr ag offerynnau taro wedi'u tiwnio yn chwarae cymalau cwestiwn ac ateb yn fyrfyfyr rhwng y cytganau.

Mae Owain yn *chwarae rhan offerynnol gan ddefnyddio amrediad cyfyngedig o nodau* (nodwedd o Lefel 3), er ei fod yn dueddol iawn o wneud camgymeriadau. Mae'n chwarae cymalau byrion *â ffurf gerddorol syml* yn fyrfyfyr (nodwedd o Lefel 3).

**Camau nesaf:**

Mae angen i Owain cymryd mwy o ofal wrth chwarae'r glockenspiel er mwyn sicrhau ei fod yn taro'r nodau cywir.

### 'Cerdd Heini' (Owain 3)

Gan weithio mewn grwpiau o bedwar, mae'r dysgwyr yn cyfansoddi alaw i 'Cerdd Heini' gan Margiad Roberts. Mae'r dysgwyr yn defnyddio offerynnau taro wedi'u tiwnio i greu un llinell felodig yr un, ac yna'n cyfuno'r rhain i greu cyfansoddiad grŵp.

Mae Owain yn gweithio gydag eraill i greu llinell felodig *â ffurf gerddorol syml* (nodwedd o Lefel 3) ac yn canu'r llinell wrth iddo'i chwarae. Mae'r dysgwyr yn cynorthwyo ei gilydd i ddatblygu gwybodaeth a syniadau (fframwaith sgiliau, Datblygu cyfathrebu: Datblygu) a chreu cyfansoddiad.

**Camau nesaf:**

Mae angen i Owain parhau i weithio gyda'r grŵp i recordio'r gân ac yna ychwanegu cyfeiliant.

### 'Agorawd Yr Wyddfa' (Owain 4)

Mae'r dysgwyr yn gwerthuso dechrau 'Agorawd Yr Wyddfa' gan Gareth Glyn. Wrth wrando, maen nhw'n canolbwyntio ar bedwar cwestiwn, sy'n ymdrin â naws, dynameg, offeryniaeth a gwead. Yna, gan weithio mewn parau, mae'r dysgwyr yn dewis o amrywiaeth o gardiau a roddwyd iddyn nhw, ac yn nodi gwybodaeth ychwanegol ar gardiau gwag. Mae'r gweithgaredd yn cynorthwyo i feithrin sgiliau llafaredd wrth ddatblygu gwybodaeth a syniadau (fframwaith sgiliau, Datblygu cyfathrebu: Llafaredd).

Mae Owain yn *gwahaniaethu o fewn elfennau cerddorol* (nodwedd o Lefel 3). Ar y cyfan, mae'n dewis yn gywir o blith y cardiau a roddwyd, er bod bylchau yn dod i'r amlwg yn ei ddealltwriaeth wrth iddo geisio ehangu ar ei atebion. Er enghraifft, mae'n cyfeirio'n anghywir at gitâr a drymiau wrth gyfiawnhau ei ddewis o wead trwchus. Nid yw Owain a'i bartner yn nodi syniadau ychwanegol ar y cerdyn gwag.

**Camau nesaf:**

Mae angen gofyn i Owain beth, yn benodol, mae'n ei hoffi neu ddim yn ei hoffi am y darn cerddoriaeth hwn a pham.

### 'Yma o Hyd' (Owain 5)

Mae'r dysgwyr yn gwerthuso 'Yma o Hyd' gan Dafydd Iwan. Gofynnwyd iddyn nhw feddwl am nifer y lleisiau, yr offeryniaeth a'r ffurf felodig, a nodi eu hymatebion ar fyrddau gwyn unigol, tra eu bod yn gwrando ar y gerddoriaeth.

Mae Owain yn *gwahaniaethu o fewn elfennau cerddorol* (nodwedd o Lefel 3). Mae'n ansicr ynglŷn â rhai o'r atebion, ac yn ateb 6/8 i'r cwestiwn ynglŷn â thraw. (Roedd y dysgwyr wedi dysgu'r term hwn mewn gwers flaenorol, gan glapio chwe chwafer y bar gyda'r gerddoriaeth.)

**Camau nesaf:**

Mae angen i Owain ceisio cofio bod traw yn cyfeirio at ba mor 'uchel' neu 'isel' yw'r nodau, a bod rhythm yn cyfeirio at hyd y nodau neu eu parhad.

## Crynodeb

Mae proffil Owain yn dangos rhai nodweddion o Lefel 3 a Lefel 4 ond nodweddion Lefel 3 yn bennaf.

## Mirain | Nodweddion o Lefelau 3, 4 a 5



Mae Mirain yn ddysgwr 11 oed yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae ei hathrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Mirain nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Mirain ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae proffil Mirain yn dangos rhai nodweddion o Lefelau 3, 4 a 5, ond mae'n dangos nodweddion Lefel 4 yn bennaf.

Mae Mirain yn mwynhau cerddoriaeth yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol. Mae wedi llwyddo yn ei harholiad Gradd 1 ar y piano ac mae'n gobeithio dysgu chwarae'r delyn pan fydd yn symud i'r ysgol uwchradd.

## Jac | Nodweddion o Lefelau 5 a 6



Mae Jac yn ddysgwr 11 oed yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae ei athrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Jac nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Jac ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae proffil Jac yn dangos rhai nodweddion o Lefelau 5 a 6, ond mae'n dangos nodweddion Lefel 5 yn bennaf.

Mae Jac yn mwynhau cerddoriaeth yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol. Mae'n hoffi canu yn arbennig ac mae newydd ddechrau cael gwersi drymiau.

## 'Adiemus' (Mirain a Jac 1)

Mae'r dosbarth yn dysgu canu symudiad cyntaf 'Adiemus' o *Songs of Sanctuary* gan Karl Jenkins. Mae hon yn gân heriol ac iddi ddwy ran. Ar ôl canu, mae dysgwyr yn defnyddio'r dull 'dwy seren a dymuniad' i werthuso eu perfformiad.

Mae Mirain yn canu *gan ddangos rheolaeth ar elfennau cerddorol* (nodwedd o Lefel 4), er ei bod ychydig yn betrusgar. Mae'n cael rhywfaint o drafferth i gynnal y rhan alto. Ar ôl canu, mae Mirain yn adolygu'r broses/dull gweithio (fframwaith sgiliau, Datblygu meddwl: Myfyrio).

**Camau nesaf:**

Y tro nesaf maen nhw'n canu'r gân hon, mae angen i Mirain sefyll yng nghanol yr altos fel ei bod hi'n gallu clywed lleisiau eraill yn canu ei llinell.

Mae Jac yn *dangos rhwyddineb a sylw i fanylion wrth ganu repertoire sydd yn ehangu* (nodwedd o Lefel 6). Mae'n *cynnal rhan fel aelod o grŵp mewn rhan-gân* (nodwedd o Lefel 6). Ar ôl canu, mae'n *trafod a gwerthuso cerddoriaeth* (Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio, Gwerthuso 4).

**Camau nesaf:**

Mae angen i Jac rhoi cynnig ar ganu unawd fer y tro nesaf maen nhw'n canu.

## 'Arriba' (Mirain a Jac 2)

I baratoi, mae'r disgyblion yn defnyddio symudiadau taro'r corff i greu patrymau rhythmig byr. Maen nhw'n perfformio 'Arriba' gan ddefnyddio offerynnau traw a symudiadau taro'r corff, ac yna'n creu patrwm melodig yn fyrfyfyr gan ddefnyddio'r raddfa bentatonig.

Mae Mirain yn *cynnal rhan offerynnol mewn darn ar gyfer grŵp* (nodwedd o Lefel 4), er bod rhai o'r nodau yn anghywir. Mae ei chyfansoddiad byrfyfyr yn dangos *ffurf gerddorol syml* (nodwedd o Lefel 3).

**Camau nesaf:**

Mae angen i Mirain dal ati gyda rhan yr alaw a cheisio ddefnyddio'r cetyn taro llaw chwith. Mae angen iddi anelu at amrywio ei rythmau, wrth greu cerddoriaeth yn fyrfyfyr.

Mae Jac yn *dangos rhwyddineb* (nodwedd o Lefel 5) ac yn *chwarae gyda deheurwydd* (Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio, Perfformio 2). Mae'n gyfforddus yn defnyddio dau getyn taro ac yn dangos ymdeimlad da o rythm. Mae ei gyfansoddiadau byrfyfyr yn ddigon cytbwys ac amrywiol, ac yn dangos y gall *ddatblygu a threfnu deunydd* (nodwedd o Lefel 5).

**Camau nesaf:**

Mae angen i Jac archwilio nodau y tu allan i'r raddfa bentatonig wrth greu cerddoriaeth yn fyrfyfyr. Efallai bydd yn hoffi rhoi cynnig ar ddarn unawdol hirach hefyd.

## Croeso Caerdydd! (Mirain a Jac 3)

Ar ôl trafod nodweddion adnabyddus Caerdydd, mae'r dysgwyr yn trafod meini prawf llwyddiant er mwyn cyfansoddi darn o gerddoriaeth i groesawu ymwelwyr i'r brifddinas. Mae'r dysgwyr yn cyfansoddi mewn grwpiau, yn perfformio i weddill y dosbarth, yna'n myfyrio ar y graddau maen nhw wedi cyflawni'r meini prawf llwyddiant (fframwaith sgiliau, Datblygu meddwl: Cynllunio). Mae un dysgwr yn recordio'r cyfansoddiadau ar DigiCam er mwyn gwerthuso yn y dyfodol. Caiff rhai recordiadau eu hychwanegu hefyd i bortffolios safoni'r ysgol, a ddefnyddir fel ffynhonnell gyfeirio o ran tystiolaeth.

Mae Mirain, *gan weithio gydag eraill, yn dyfeisio ac yn ymgymryd â datblygiadau syml mewn perthynas â syniadau cerddorol i gynhyrchu cyfansoddiadau* (nodwedd o Lefel 4). Mae'n gweithio gyda synau gwahanol, ac yn cyfansoddi ffanffer a chordiau ar gyfer y darn grŵp hwn. Ei syniadau hi yw'r rhai mae'n eu chwarae. Mae gan y darn strwythur cerddorol priodol a cheir rhywfaint o gyferbyniad rhwng yr adrannau gwahanol. Mae Mirain yn *dangos rhwyddineb* (nodwedd o Lefel 5) wrth chwarae'r allweddell gyda dwy law. Mae'n *cyfleu syniadau ac emosiynau trwy gerddoriaeth* (Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio, Cyfansoddi 4).

**Camau nesaf:**

Mae angen i Mirain ceisio datblygu rhai o'i syniadau ymhellach.

Mae Jac, *gan weithio gydag eraill, yn datblygu ac yn trefnu deunydd o fewn strwythurau cerddorol priodol* (nodwedd o Lefel 5). Mae'n cymryd yr awenau wrth drefnu syniadau yn y grŵp, ac yn dangos dychymyg wrth ddewis synau sy'n briodol i'r stori. Mae ei ddefnydd o'r cord cywasg yn dangos ei fod yn arbrofi â harmoni. Mae Jac yn *gwerthuso ei gyfansoddiad* (nodwedd o Lefel 5) ac yn nodi meysydd i'w gwella.

**Camau nesaf:**

Mae angen i Jac archwilio mwy o gordiau cywasg a cheisio fod yn fwy penodol wrth nodi meysydd i'w gwella.

## *The Snow Spider* (Mirain a Jac 4)

Mae'r dysgwyr yn gwrando ar ddarn o *The Snow Spider* gan Jenny Nimmo, yna'n cyfansoddi darn byr ar gyfer grŵp i adlewyrchu naws y testun. Mae'r athro yn atgoffa'r dysgwyr i ganolbwyntio ar ansawdd a gwead. Mae'r grwpiau yn perfformio eu cyfansoddiadau, yna'n ateb cwestiynau gan y dosbarth.

Mae Mirain, *gan weithio gydag eraill, yn dyfeisio ac yn ymgymryd â datblygiadau syml mewn perthynas â syniadau cerddorol* (nodwedd o Lefel 4). Ei syniadau hi yw'r rhain mae'n eu chwarae, yn cynnwys y glissando agoriadol a'r nodau a ailadroddir ar y delyn. Wrth werthuso ei gwaith, mae Mirain yn *gwahaniaethu o fewn elfennau cerddorol* (nodwedd o Lefel 3).

**Camau nesaf:**

Wrth werthuso, mae angen i Mirain cyfeirio ei sylwadau at yr elfennau cerddorol.

Mae Jac yn *datblygu ac yn trefnu deunydd o fewn strwythurau priodol* (nodwedd o Lefel 5). Mae'n cymryd yr awenau wrth gyfarwyddo'r grŵp, yn gwneud y rhan fwyaf o'r penderfyniadau cerddorol ac yn *mireinio* syniadau cerddorol (nodwedd o Lefel 5) yn ystod y broses gyfansoddi. Wrth fyfyrio ar ei waith, mae'n *gwahaniaethu o fewn elfennau cerddorol* (nodwedd o Lefel 5).

**Camau nesaf:**

Mae angen i Jac ceisio datblygu alaw yn ei gyfansoddiad.

## *Palladio* (Mirain a Jac 5)

Mae'r dysgwyr yn gwrando ar recordiad o *Palladio* gan Karl Jenkins. Gan weithio mewn grwpiau, maen nhw'n trafod y gerddoriaeth mewn perthynas â'r elfennau cerddorol.

Mae Mirain yn ymdopi'n dda â'r dasg agored hon ac yn *gwahaniaethu o fewn elfennau cerddorol wrth ddisgrifio cerddoriaeth* (nodwedd o Lefel 4). Mae'n gwneud sylwadau ar yr offeryniaeth ac yn cyfeirio at gyfosodiad yr arddulliau yn y darn.

**Camau nesaf:**

Mae angen i Mirain cyfeirio ei sylwadau at y gerddoriaeth bob amser.

Mae Jac yn *gwahaniaethu o fewn elfennau cerddorol ac yn adnabod y prif nodweddion* (nodwedd o Lefel 5). Mae'n gwneud cyfraniad cryf iawn i drafodaeth y grŵp ac yn gwneud sylwadau ar offeryniaeth, strwythur, gwead a sut gellir gwella'r darn.

**Camau nesaf:**

Mae angen i Jac ceisio esbonio ei sylwadau ychydig yn fanylach.

Mae Mirain a Jac yn datblygu gwybodaeth a syniadau (fframwaith sgiliau, Datblygu cyfathrebu: Llafaredd), ac yn dod yn ddysgwyr annibynnol a chyd-ddibynnol.

### ‘Ffa la la’ (Mirain a Jac 6)

Mae’r dysgwyr yn cymryd rhan mewn ymarfer côr. Maen nhw’n canu ‘Ffa la la’, cân ac iddi ddwy ran o’r opera roc *Nia Ben Aur* gan Phil Edwards.

Mae Mirain yn canu *gan ddangos rheolaeth ar elfennau cerddorol* (nodwedd o Lefel 4). Mae’n *cynnal rhan fel aelod o grŵp mewn rhan-gân* (nodwedd o Lefel 5).

**Camau nesaf:**

Mae angen i Mirain gwneud yn siŵr ei bod yn ymuno â’r côr pan fydd hi’n dechrau ym Mlwyddyn 7.

Mae Jac yn *dangos rhwyddineb wrth ganu repertoire eang ac yn cynnal rhan fel aelod o grŵp mewn rhan-gân* (nodweddion o Lefel 5). Mae’n *canu â rheolaeth gynyddol ar anadlu, ystum, ynganiad, dynameg, brawddegu, traw a pharhad* (Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio, Perfformio 1).

**Camau nesaf:**

Mae angen i Jac rhoi cynnig ar gân ac iddi dair rhan y tro nesaf.

## Crynodeb

### Mirain

Mae proffil Mirain yn dangos rhai nodweddion o Lefel 3, Lefel 4 a Lefel 5 ond nodweddion Lefel 4 yn bennaf.

## Crynodeb

### Jac

Mae proffil Jac yn dangos rhai nodweddion o Lefel 5 a Lefel 6 ond nodweddion Lefel 5 yn bennaf.

# *Adran* 4

## Llunio barn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3

Mae’r adran hon yn dangos sut y gellir defnyddio disgrifiadau lefel pan fyddwch yn llunio barn am y lefel sy’n cyd-fynd orau o safbwynt disgrifio perfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Efallai y bydd y pwyntiau canlynol yn ddefnyddiol i chi pan fyddwch yn ystyried y proffiliau yn yr adran hon.

- Ni chaiff y proffiliau dysgwr eu cyflwyno fel model ar gyfer y modd y dylech gasglu tystiolaeth am eich dysgwyr. Er y byddwch am fedru esbonio pam yr ydych wedi dyfarnu lefel arbennig i ddysgwr ar ddiwedd y cyfnod allweddol, nid yw’n ofynnol esbonio eich barn yn y modd hwn ac nid yw’n ofynnol i’ch barn gael ei hategu gan gasgliadau manwl o dystiolaeth am bob dysgwr. Materion i athrawon sy’n gweithio o fewn polisi ysgol y cytunwyd arno yw penderfyniadau ynghylch casglu tystiolaeth a phenderfyniadau ynghylch diben y dystiolaeth honno a’r defnydd a wneir ohoni.
- Mae’r sylwadau a geir ynghylch y darnau o waith wedi’u hysgrifennu er mwyn esbonio’r farn a luniwyd am berfformiad dysgwr. Nid bod yn enghraifft o adroddiad i rieni/warcheidwaid yw eu bwriad.
- Rhan fach yn unig o’r wybodaeth a’r profiadau sy’n perthyn i wybodaeth athrawon o bob dysgwr yw’r deunyddiau a geir ym mhob proffil dysgwr. Nid yw’r deunyddiau’n adlewyrchu’r holl wybodaeth y byddwch wedi ei chasglu am bob dysgwr dros amser ac ar draws ystod o wahanol gyd-destunau. Byddwch yn defnyddio’r wybodaeth hon i lunio barn gytbwys am y lefel sy’n cyd-fynd orau â pherfformiad pob dysgwr.
- Byddwch yn llunio barn drwy ystyried cryfderau a gwendidau mewn perfformiad ar draws ystod o gyd-destunau a thros gyfnod o amser. Bydd angen rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu cyrhaeddiad ym mhob agwedd ar y disgrifiadau lefel.
- Efallai y bydd angen i rai o’ch dysgwyr ddefnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu eraill er mwyn dangos beth maen nhw’n ei wybod, beth mae’n nhw’n ei ddeall a beth maen nhw’n gallu’i wneud.

## Daniel Lefel 4



Mae Daniel yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei athro yn gwybod llawer mwy am berfformiad Daniel nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Daniel ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athro Daniel o'r farn mai Lefel 4 yw'r disgrifiad gorau o'i berfformiad mewn cerddoriaeth.

Mae Daniel yn mwynhau cerddoriaeth yn yr ysgol, ond nid yw'n dewis gwrando ar gerddoriaeth y tu allan i'r ysgol. Nid yw wedi dewis TGAU Cerddoriaeth.

## Haf Lefel 7



Mae Haf yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathro yn gwybod llawer mwy am berfformiad Haf nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Haf ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athro Haf o'r farn mai Lefel 7 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad mewn cerddoriaeth.

Mae Haf yn mwynhau cerddoriaeth, yn enwedig canu, ac yn cymryd rhan yn yr Urdd, eisteddfodau lleol, ac mewn sioeau cerdd yn yr ysgol. Mae wedi dewis TGAU Cerddoriaeth.

## 'We Go Together' (Daniel a Haf 1)

Ar ôl cynhesu eu lleisiau, mae'r dysgwyr yn canu trefniant dwy ran o 'We Go Together' o *Grease*. Mae'r perfformiad hwn yn rhan o uned fwy o waith ar sioeau cerdd.

Ym Mhennill 1, mae Daniel yn canu'r alaw ac yn *dangos rhwyddineb* (nodwedd o Lefel 5). Mae'n *canu caneuon mewn tiwn* (nodwedd o Lefel 3). Er hynny, mae ei ran-ganu ym Mhennill 2 yn nodwedd o Lefel 3 gan nad yw'n cynnal ei ran, fel sy'n angenrheidiol ar gyfer Lefel 4.

**Camau nesaf:**

Mae angen i Daniel gwrando'n ofalus ar ei draw wrth ganu mewn rhannau.

Mae Haf yn *canu unawd fer* (nodwedd o Lefel 6). Mae'n *dangos rhwyddineb a sylw i fanylion* (nodwedd o Lefel 6), er ei bod yn cael trafferth â'r nodau uchel ar ddiwedd yr unawd.

**Camau nesaf:**

Mae angen i Haf gynnal ei hanadlu er mwyn ei helpu â'r nodau uwch.

## 'Sosban Fach' (Daniel a Haf 2)

Mae'r dysgwyr yn perfformio trefniant ystafell ddosbarth gwahaniaethol o 'Sosban Fach', yna'n creu alaw yn fyrfyfyr. Nesaf, maen nhw'n gwrando ar ddwy fersiwn o'r gân – roc gyfoes ac un mwy traddodiadol gan Bryn Terfel, côr a cherddorfa. Maen nhw'n cymharu'r ddwy fersiwn, gan ganolbwyntio ar yr elfennau cerddorol.

Mae Daniel yn chwarae llinell fas syml ar glockenspiel. Mae'n *cynnal rhan offerynnol mewn darn ar gyfer grŵp* (nodwedd o Lefel 4). Mae dechrau a diwedd da i gyfansoddiad byrfyfyr Daniel, er ei fod yn betrusgar yn y canol. Mae'n *datblygu ac yn trefnu deunydd* (nodwedd o Lefel 5), fel mae'r modd dymunol mae'r alaw yn newid yn ei ddangos. Wrth werthuso'r recordiadau, mae Daniel yn *gwahaniaethu o fewn elfennau cerddorol ac yn adnabod prif nodweddion cerddoriaeth* (nodwedd o Lefel 5). Mae'n gwneud sylwadau cywir am gyflymder, strwythur, dynameg, arddull a rhythm.

**Camau nesaf:**

Mae angen i Daniel rhoi cynnig ar ran fwy heriol yn ensemble nesaf y dosbarth.

Mae Haf yn chwarae'r alaw a'r cordiau ar yr allweddell. Mae'n chwarae â dwy law ac yn *dangos rhwyddineb* (nodwedd o Lefel 6). Mae Haf yn creu dau bennill yn fyrfyfyr, *gan ddangos lefel uchel o ddealltwriaeth o elfennau cerddorol* (nodwedd o Lefel 7). Mae'n archwilio'r raddfa leiaf harmonig D gyflawn, yn gwneud defnydd diddorol o ddilyniant ac yn *llunio barn fanwl* am ei gwaith (nodwedd o Lefel 7). Wrth werthuso'r recordiadau, mae Haf yn *adnabod nodweddion arbennig gwahanol fathau o gerddoriaeth ac yn llunio barn fanwl amdanynt* (nodwedd o Lefel 7). Mae'n gwneud sylwadau craff ar offeryniaeth, gwead, arddull a chyflymder.

**Camau nesaf:**

Nawr mae Haf yn gwybod nodau a rhythmau 'Sosban Fach', mae angen iddi geisio chwarae'n ysgafnach.

## 'Only Love' (Daniel a Haf 3)

Mae Haf yn cael gwers ganu bob wythnos gyda thiwtor y sir. Mae'n dechrau gydag amrywiaeth o ymarferion i gynhesu'r llais, yna'n perfformio'r unawd 'Only Love' o *The Scarlet Pimpernel* gan Frank Wildhorn a Nan Knighton.

Mae Haf yn *perfformio'r* gân anodd hon â *rhywfaint o ymwybyddiaeth o arddull* (nodwedd o Lefel 7). Mae'n profi rhai anawsterau technegol, gan gynnwys tonyddiaeth.

**Camau nesaf:**

Mae angen i Haf canolbwyntio ar ei thraw, yn enwedig ar y nodau uwch.

## Grwndfas (Daniel a Haf 4)

Ar ôl dysgu chwarae trefniant o *Canon in D* gan Pachelbel, mae'r dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau i gyfansoddi grwndfas pedwar bar yn G Fwyaf. Maen nhw'n trefnu'r cordiau gyda'i gilydd, yna'n cyfansoddi alawon unigol.

Mae Daniel yn cyfansoddi alaw syml ond effeithiol. Mae'n defnyddio nodau'r cordiau ac yn dyblu rhythm y bas. Mae Daniel, *gan weithio gydag eraill, yn dyfeisio ac yn ymgymryd â datblygiadau syml mewn perthynas â syniadau cerddorol i gynhyrchu cyfansoddiadau, gan ddangos dealltwriaeth a defnydd priodol o elfennau cerddorol* (nodwedd o Lefel 4).

**Camau nesaf:**

Mae angen i Daniel ceisio amrywio'r rhythm yn ei alaw.

Mae Haf yn ychwanegu at y llinell fas ac yn chwarae hyn gyda'r cordiau. Mae'n cyfansoddi ei halaw ei hun ac yn cymryd rhan flaenllaw yn *mireinio a gwerthuso'u gwaith* (Cyfnod Allweddol 3: Rhaglen Astudio, Cyfansoddi 3). Mae ei gwaith yn *cynnal ac yn datblygu syniadau cerddoro*l (nodwedd o Lefel 6).

**Camau nesaf:**

Mae angen i Haf ychwanegu amrywiaeth rhythmig i'w halaw.

## Technoleg cerddoriaeth (Daniel a Haf 5)

Mae dysgwyr yn defnyddio amrywiaeth o raglenni meddalwedd i hwyluso gwaith cyfansoddi mewn grwpiau bach ac yn unigol.

Ar ôl creu grwndfas pedwar bar ar glockenspiel, mae Daniel a Josh yn defnyddio O-Generator i ychwanegu curiad drwm a gitâr corws i'r bas.

Mae Haf yn defnyddio Sibelius 2 i gyfansoddi darn bas sylfaen unigol. Er nad yw wedi'i gwblhau eto, gwelir Haf yn *cynhyrchu cyfansoddiad cydlynol gan ddangos lefel uchel o ddealltwriaeth o elfennau cerddorol* (nodwedd o Lefel 7). Mae'n defnyddio llinellau alaw amrywiol i ychwanegu at wead ei gwaith, ac yn dewis recordio rhan leisiol fyw, gyda chymorth dau ddysgwr o Flwyddyn 12.

**Camau nesaf:**

Mae angen i Haf anelu at ychydig o ddatblygiad yn yr adran nesaf.

## Pa un sydd yn wahanol? (Daniel a Haf 6)

Mae'r dysgwyr yn gwerthuso tri darn bach o gerddoriaeth – 'Boston' gan Augustana, 'A Thousand Miles' gan Vanessa Carlton ac 'Adiemus' gan Karl Jenkins. Y dasg yw penderfynu pa un sydd yn wahanol a chyfiawnhau hyn gyda rhesymau cerddorol. Mae'r dysgwyr yn defnyddio byrddau gwyn bach i wneud nodiadau wrth wrando, yna'n trafod eu syniadau mewn parau.

Mae Daniel yn *gwahaniaethu o fewn elfennau cerddorol wrth ddisgrifio a chymharu gwahanol fathau o gerddoriaeth* (nodwedd o Lefel 4). Mae'n cyfiawnhau ei farn mai 'Adiemus' yw'r un nad yw'n perthyn i'r lleill drwy nodi'n gywir bod gan y darn gyflwyniad lleisiol ac nad yw'n Saesneg.

**Camau nesaf:**

Mae angen i Daniel meddwl am fwy o resymau cerddorol dros ei benderfyniad.

Mae Haf yn *adnabod nodweddion arbennig gwahanol fathau o gerddoriaeth ac yn llunio barn fanwl amdanynt* (nodwedd o Lefel 7). Mae'n gwneud sylwadau manwl a chraff am 'Adiemus', yn cynnwys ei donyddiaeth, harmoni, arwydd amseriad ac ansawdd.

**Camau nesaf:**

Mae angen gofyn i Haf pam dewiswyd y darn hwn i hysbysebu awyrennau.

## 'The Sabre Dance' (Daniel a Haf 7)

Mae'r dysgwyr yn defnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol fel dull gwerthuso. Maen nhw'n gwrando ar 'The Sabre Dance' gan Khachaturian ac yn dewis disgrifiadau i gyfateb i'r gerddoriaeth.

Mae Daniel yn *gwahaniaethu o fewn elfennau cerddorol* (nodwedd o Lefel 4) ac yn enwi'r drwm tannau trawsacennog a'r glissando ar y trombôn yn gywir.

**Camau nesaf:**

Mae angen gofyn i Daniel beth arall gall ei ddweud am y gerddoriaeth hon.

## 'Dwi'n amau dim' (Daniel a Haf 8)

Mae'r gwaith cyfansoddi hwn yn rhan o uned fwy o waith ar gordiau. Gan weithio mewn grwpiau, rhoddir geiriau 'Dwi'n amau dim' i'r dysgwyr a gofynnir iddyn nhw gyfansoddi darn yn seiliedig ar driadau sylfaenol.

Mae Haf yn cyfansoddi'r alaw ac yn cymryd rhan flaenllaw wrth lunio arddull gyffredinol y darn. Mae'n gweithio gydag eraill i ddewis cordiau, ac yn cyfrannu syniadau am ran yr allweddell, strwythur a newid cywair.

Mae hwn yn dangos *cynhyrchu cyfansoddiad argyhoeddiadol sydd yn dangos cysondeb o ran arddull* (nodwedd o Lefel 8). Mae'n dangos dealltwriaeth Haf o harmoni a strwythur, ynghyd â'i sensitifrwydd i wead a chydbwysedd. Mae Haf yn *perfformio â rhywfaint o ymwybyddiaeth o arddull ac ymdeimlad o ensemble* (nodwedd o Lefel 7).

**Camau nesaf:**

Mae angen i Haf ychwanegu darnau lleisiol cefndirol neu geisio ychwanegu enghreifftiau o'r seithfed cord i rai o'r triadau.

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Daniel

Ystyriwyd Lefelau 3, 4 a 5 a barnwyd mai Lefel 4 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Daniel yn mwynhau perfformio gydag eraill, ac yn *dangos rhwyddineb* (nodwedd o Lefel 5) wrth ganu caneuon adnabyddus yn unsain. Mewn rhan-ganeuon, mae'n *canu caneuon mewn tiwn* (nodwedd o Lefel 3) ond mae ei ganu yn llai hyderus. Mae'n *chwarae'r* glockenspiel *gan ddangos rheolaeth ar elfennau cerddorol* ac yn *cynnal rhan offerynnol mewn darn ar gyfer grŵp* (nodweddion o Lefel 4).

Gan weithio gydag eraill, mae Daniel yn *dyfeisio ac yn ymgymryd â datblygiadau syml mewn perthynas â syniadau cerddorol, . . . gan ddangos dealltwriaeth a defnydd priodol o elfennau cerddorol* (nodwedd o Lefel 4). Wrth greu cerddoriaeth yn fyrfyfyr, mae'n *datblygu ac yn trefnu deunydd o fewn strwythurau cerddorol priodol* (nodwedd o Lefel 5).

Mae gwaith gwerthuso Daniel yn dangos holl nodweddion Lefel 4, ac weithiau nodweddion Lefel 5.

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Haf

Ystyriwyd Lefelau 6, 7 ac 8 a barnwyd mai Lefel 7 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Haf yn mwynhau perfformio gydag eraill ac yn unigol, ac mae'n *dangos rhwyddineb a sylw i fanylion* (nodweddion o Lefel 6). Mae'n fwy hyderus yn canu nag yw yn chwarae, ac yn dangos *rhywfaint o ymwybyddiaeth o arddull ac ymdeimlad o ensemble* (nodweddion o Lefel 7) ym mheth o'i gwaith lleisiol.

Mae *cyfansoddiadau* Haf yn nodweddiadol *gydlynol, gan ddangos lefel uchel o ddealltwriaeth o elfennau cerddorol a rheolaeth arnynt* (nodweddion o Lefel 7). Mae'n llunio'r farn sy'n angenrheidiol i werthuso gwaith sy'n mynd rhagddo ac mae wedi gweithio gyda grŵp bach i greu cân bop *argyhoeddiadol sydd yn dangos cysondeb cyffredinol o ran arddull* (nodwedd o Lefel 8).

Mae Haf yn wrandäwr astud iawn. *Trwy ddadansoddi â'r glust*, mae'n *adnabod nodweddion arbennig* ac yn *llunio barn fanwl* am ei gwaith ei hun a gwaith eraill (nodweddion o Lefel 7).

# Charlotte | Lefel 6



Mae Charlotte yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathrawon yn gwybod llawer mwy am berfformiad Charlotte nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Charlotte ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athrawon Charlotte o'r farn mai Lefel 6 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad mewn cerddoriaeth.

Mae Charlotte yn mwynhau canu yn y dosbarth, er nad yw'n aelod o gôr yr ysgol. Dechreuodd gymryd gwersi piano dri mis yn ôl ac mae wedi dewis TGAU Cerddoriaeth.

Mae'r proffil hwn yn cynnwys chwe darn o waith – dwy enghraifft o berfformio, dwy enghraifft o gyfansoddi a dwy enghraifft o werthuso. Gallai'r enghreifftiau hyn ffurfio rhan o bortffolio safoni adran, er nad oes disgwyl i chi gyflwyno tystiolaeth ar y ffurf hon o reidrwydd.

## 'Chwarae'n Troi'n Chwerw' (Charlotte 1)

Mae'r rhan-gân 'Chwarae Troi'n Chwerw' gan Caryl Parry Jones yn cael ei pherfformio mewn tair rhan – soprano, alto a bariton.

Mae Charlotte yn canu alto yn y gytgan, ac yn canu unawd yn yr ail bennill. Mae'n *dangos rhwyddineb a sylw i fanylion* (nodweddion o Lefel 6). Mae'n *cynnal rhan* yn llwyddiannus a hefyd yn *canu unawd fer* (nodweddion o Lefel 6).

**Camau nesaf:**

Mae angen i Charlotte ceisio gwneud ymarferion lleisiol byr i gryfhau canol ei hamrediad a helpu i gysoni'r tôn rhwng llais y frest a'r pen.

### ‘Don’t Lie’ (Charlotte 2)

Mae’r dysgwyr yn perfformio trefniant o ‘Don’t Lie’ gan Black Eyed Peas. Mae’r trefniant ar gyfer piano, fibraffon (i’w berfformio ar allweddell), seiloffon bas, tambwrîn a lleisiau.

Mae Charlotte yn chwarae rhan y piano gan ddefnyddio’r ddwy law. Er ei bod yn ailadroddus iawn, mae ei rhan hi’n drawsacennog ac mae’r rhythm yn heriol. Mae’n gwrando’n dda ar weddill y grŵp ac yn cynnwys ei rhan unigol yn y gwead cymhleth. Mae’n *dangos rhwyddineb, sylw i fanylion a, lle bo’n briodol, ymatebolrwydd i eraill* (nodwedd o Lefel 6).

**Camau nesaf:**

Mae angen i Charlotte rhoi cynnig ar ddarn mwy estynedig y tro nesaf, sy’n cynnwys mwy o gyferbyniad.

### ‘Dawnsio yn yr haul’ (Charlotte 3)

Rhoddir strwythur cordiau i’r dysgwyr – C A leiaf F G – a gofynnir iddyn nhw gyfansoddi darnau unigol gan ddefnyddio GarageBand.

Mae Charlotte yn defnyddio cylch drymiau o GarageBand, ac yna’n defnyddio allweddell i greu ei rhan bas, cordiau ac alaw ei hun. Mae’n addasu strwythur y cordiau a roddwyd trwy newid y drefn i greu strwythur ABA. Mae naws fyrfyfyr i’r alaw. Mae Charlotte *wedi cynhyrchu cyfansoddiad yn unigol, sydd yn cynnal ac yn datblygu syniadau cerddorol* (nodwedd o Lefel 6).

**Camau nesaf:**

Mae angen i Charlotte ceisio ychwanegu coda at ei darn.

### ‘So Blue’ (Charlotte 4)

Mae’r dysgwyr yn chwarae darn jazz cychwynnol – ‘So Blue’ – ac yna’n defnyddio’r raddfa y felan i chwarae’n fyrfyfyr. Maen nhw’n ymarfer eu darnau byrfyfyr cyn chwarae unawd.

Mae darnau byrfyfyr Charlotte yn *cynnal ac yn datblygu syniadau cerddorol* (nodwedd o Lefel 6) ac yn dangos dealltwriaeth argyhoeddiadol o strwythur cordiau’r felan. Mae ei chymalau yn ddiddorol o ran rhythm ac alaw ac mae’n gwneud defnydd da o gonfensiynau priodol megis nodau y felan, plygu’r traw ac ailadrodd.

**Camau nesaf:**

Mae angen i Charlotte arbrofi'r tro nesaf gyda rhythmau mwy amrywiol ac archwilio'r raddfa'r felan mewn wythawd arall.

## 'St. Louis Blues' (Charlotte 5)

Mae'r dysgwyr yn gwerthuso recordiad o 'St. Louis Blues' perfformiwyd gan Bessie Smith. Maen nhw'n gwneud nodiadau ar fyrddau gwyn bach wrth wrando, ac yna'n trafod y gerddoriaeth mewn parau.

Mae Charlotte yn *gwahaniaethu o fewn elfennau cerddorol ac yn adnabod nodweddion arbennig* y felan (nodwedd o Lefel 6). Mae'n disgrifio swyddogaeth yr offerynnau (cordiau organ yn cadw'r curiad, y trwmped yn chwarae'n fyrfyfyr), strwythur y pennill (llinellau 1 a 2 yn cael eu hailadrodd, llinell 3 yn wahanol) ac yn nodi ei fod yn recordiad gwreiddiol.

**Camau nesaf:**

Mae angen gofyn i Charlotte sut bydd hi'n disgrifio naws y darn a sut mae'r gerddoriaeth yn llwyddo i gyfleu'r naws hon.

## 'Earth Angel' (Charlotte 6)

Mae'r dysgwyr yn gwerthuso recordiad o 'Earth Angel' gan Curtis Williams. Maen nhw'n gwneud nodiadau ar fyrddau gwyn bach wrth wrando, ac yna'n trafod y gerddoriaeth a'i chymharu â 'St. Louis Blues'.

Mae Charlotte yn *adnabod nodweddion arbennig* y gerddoriaeth ac yn *llunio barn fanwl* (nodwedd o Lefel 7). Mae'n cymharu cyflymder ac offeryniaeth y ddau ddarn, ac yn gwneud sylwadau ar yr ansawdd lleisiol cyferbyniol. Mae'n nodi'r prif batrwm harmonig, yn nodi'r strwythur cyffredinol, ac yn cyfiawnhau ei hamcan o ddyddiad cyfansoddi'r darn.

**Camau nesaf:**

Mae angen i Charlotte egluro sut cafodd yr alaw ei datblygu.

## Crynodeb a barn gyffredinol

Ystyriwyd Lefelau 6 a 7 a barnwyd mai Lefel 6 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Charlotte yn mwynhau perfformio ac yn *dangos rhwyddineb a sylw i fanylion* (nodweddion o Lefel 6) wrth ganu a chwarae. Mae'n *canu unawd fer* ac yn *dangos ymatebolrwydd i eraill* (nodweddion o Lefel 6) wrth chwarae. Mae'n *cynnal rhan* yn llwyddiannus, yn lleisiol ac ar offeryn (nodwedd o Lefel 6).

Mae Charlotte wedi *cynhyrchu amrywiaeth o gyfansoddiadau, gan gynnwys darnau a gyfansoddwyd yn unigol, sydd yn cynnal ac yn datblygu syniadau cerddorol* (nodwedd o Lefel 6). Mae'n ddysgwr annibynnol ac nid yw'n ceisio fawr o gymorth gan yr athro wrth gyfansoddi.

Wrth werthuso cerddoriaeth gyda dysgwyr eraill, mae Charlotte yn *gwahaniaethu o fewn elfennau cerddorol ac yn adnabod nodweddion arbennig* (nodwedd o Lefel 6). Mae'n *llunio barn fanwl* (nodwedd o Lefel 7) mewn ymateb i gwestiynau.

# Cyfeiriadau defnyddiol

Mae'r adran hon yn rhestru adnoddau, gan gynnwys rhai sydd wedi'u comisiynu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac ACCAC (sydd bellach yn rhan o'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru) i ategu'r Cwricwlwm Cymreig mewn cerddoriaeth yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3.

Nid yw'r deunyddiau yn yr adran hon ar gael o Lywodraeth Cynulliad Cymru (ar wahân i'r un cyntaf a gyhoeddwyd gan ACCAC). Maen nhw ar gael yn uniongyrchol o'r cyhoeddwyr neu drwy www.gwales.com

**Ffynonellau y cyfeirir atyn nhw yn y testun**

*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Cerddoriaeth Cyfnod Allweddol 2* (ACCAC, 2002)

*The power of music: its impact on the intellectual, social and personal development of children and young people* gan S Hallam (London: Performing Right Society, 2001)

*Philosophy in the Classroom* ail argraffiad gan M Lipman, A M Sharp a F Oscanyon (Temple University Press, 1980)

*Music in the School* gan J Mills (Gwasg Prifysgol Rhydychen, 2006)

**Adnoddau a gomisiynwyd ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3**

*8 @ 20* (Curiad, 2000)
ISBN: 9781897664520
Wyth uned o waith yn seiliedig ar gerddoriaeth gan gyfansoddwyr o'r ugeinfed ganrif yng Nghymru. Plygell, CD a disg MIDI. Ar gyfer Cyfnod Allweddol 3.

*Beth am Chwarae!* (Gwasg UWIC, 2005)
ISBN: 9781902724805
Chwech uned o waith dwyieithog ar gerddoriaeth offerynnol draddodiadol o Gymru. Plygell, CD, CD-ROM a disg MIDI. Ar gyfer Cyfnod Allweddol 3.

*Caneuon Gwerin Cymru* (Curiad, 1996)
ISBN: 9781897664858
Cyfrol o 50 o ganeuon gwerin Cymru, gyda chyfeiliant piano, cordiau gitâr a geiriau dwyieithog. Llyfr a CD (yn cynnwys cyfeiliant karaoke). Ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, a Chyfnodau Allweddol 2 a 3.

*Cantabile* (Curiad, 1997)
ISBN: 9780000777577
Casgliad o 16 o ganeuon dwyieithog cyfoes gan gyfansoddwyr byw o Gymru. Ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

*Cerddtastic* (Y Lolfa, 2005)
ISBN: 9780862437633
Ugain o brojectau cerddoriaeth yn cynnwys repertoire Cymraeg amrywiol a chysylltiadau trawsgwricwlaidd. Llyfr, dau CD a CD-ROM. Ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

*Cerddoriaeth – Cymru* (Tinopolis, 2010)
ISBN: 9781847130358
DVD-ROM dwyieithog a rhyngweithiol yn cynnwys gwaith gan nifer o berfformwyr o Gymru. Ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

*Cerddoriaeth Cymru* (Gwasg UWIC, 2007)
ISBN: 9781905617340
Pecyn o wyth poster dwyieithog yn dangos gweithgareddau creu cerddoriaeth yng Nghymru. Posteri a nodiadau cefndirol. Ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

*Cerddoriaeth Cymru* (Curiad, 1996)
ISBN: 9781897664902
Nodiadau dwyieithog ar 15 o ddarnau amrywiol o gerddoriaeth o Gymru. Llyfr a CD. Ar gyfer Cyfnod Allweddol 3.

*Cymru ar Gân – Caneuon gwreiddiol i blant* (Curiad, 1999)
ISBN: 9781897664421
Casgliad amrywiol o 12 o ganeuon gan gyfansoddwyr poblogaidd o Gymru. Llyfr a CD. Ar gyfer dysgwyr Cymraeg Cyfnod Allweddol 2.

*Gwranda!* (Tinopolis)
Adnodd ar lein o hanner cant o ddarnau cerddorol amrywiol o amserau a lleoedd gwahanol. Ar gael o www.gcad-cymru.org.uk

*Joseff a'r Gôt Amryliw* (Curiad, 1998)
ISBN: 9781897664919
Cyfieithiad Cymraeg o *Joseph and the Amazing Technicolor Dreamcoat*. Sgôr ar gyfer llais a phiano. Ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

*Moving On* (Gwasg UWIC, 2010)
ISBN: 9781905617975
Unedau pontio ar gyfer cerddoriaeth ym Mlynyddoedd 6 a 7.

*Myth and Melody* (The Centre for Educational Studies)
I'w gyhoeddi.

*Rownd a Rownd* (Curiad, 2003)
ISBN: 9781897664599
Casgliad o 88 o donau crynion wedi'u haddasu o *Flying a Round*. Llyfr a CD. Ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

*Sounds Creative* (Curiad, 1998)
ISBN: 9781897664612
Pymtheg o brojectau cerddoriaeth greadigol. Llyfr a CD. Ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

*Ymunwch yn y Gân!* (Gwasg UWIC, 2002)
ISBN: 9781902724362
Trefniannau lleisiol ac offerynnol dwyieithog o 10 cân boblogaidd ar gyfer yr ystafell ddosbarth. Plygell, CD a disg MIDI. Ar gyfer Cyfnod Allweddol 3.

# Cydnabyddiaethau

Hoffai'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ddiolch i'r nifer fawr o athrawon, ysgolion, awdurdodau lleol a'r sefydliadau eraill sydd wedi helpu i ddatblygu'r canllawiau hyn.

Diolch yn arbennig i'r Grŵp Llywio, Dylan Adams, Owain Gethin Davies, Ellen Evans, Sioned Jones, Jane Leggett, John Likeman, Mair Long, Betsan Perrett a Siân Rees, a rhoddodd o'u hamser gwerthfawr i'n helpu i ddatblygu'r canllawiau hyn. Diolch i Jan Richards am ei chymorth amhrisiadwy wrth ddatblygu'r canllawiau hyn. Diolch hefyd i Sian Wyn Gibson am gymryd rhan yn y gwaith ffilmio.

Hoffai APADGOS ddiolch hefyd i'r disgyblion a'r rhieni/warcheidwaid hynny a gytunodd i enghreifftiau o waith gael eu hatgynhyrchu yn y canllawiau hyn.

Yn benodol, mae APADGOS yn ddiolchgar i'r ysgolion canlynol am roi cymorth a deunyddiau:

Ysgol Bro Morgannwg, Bro Morgannwg
Ysgol y Creuddyn, Conwy
Ysgol y Garnedd, Gwynedd
Ysgol y Wern, Caerdydd.

Hoffai APADGOS ddiolch i DART Film and Video Services a Radiant Media Consultancy am greu'r DVD, ac i Tony Harding am ei waith animeiddio.

Hoffai APADGOS ddiolch i'r canlynol am roi caniatâd i ddefnyddio deunydd â hawlfraint yn y canllawiau hyn.

Boosey and Hawkes Music Publishers Ltd ar gyfer 'Adiemus' o *Songs of Sanctuary* gan Karl Jenkins; 'Arriba' o *Jazz in the Classroom* gan Eddie Harvey, 1988 (ISBN 0-008990-033794); *Palladio* gan Karl Jenkins, perfformiwyd gan Catrin Finch, o Crossing the Stone © Sony Classical (SK87320); 'The Sabre Dance', a gyfansoddwyd gan Khachaturian, perfformiwyd gan Gerddorfa Symffoni Gwladol St Petersburg

Cherry Lane Music Publishing Ltd ar gyfer 'Don't Lie' gan Black Eyed Peas

David Higham Associates ar gyfer *The Snow Spider* gan Jenny Nimmo – cyfieithiad Cymraeg yn llyfr Taro Nodyn

Emyr Rhys, Recordiau Aran ar gyfer trefniant a pherfformiad o 'Sosban Fach'

EMI Music Publishing ar gyfer 'Boston', perfformiwyd gan Augustana; 'Don't Lie' gan Black Eyed Peas; 'St. Louis Blues' gan W C Handy, perfformiwyd gan Bessie Smith/Louis Armstrong

Gwasg Carreg Gwalch ar gyfer 'Cerdd Heini' gan Margiad Roberts o'r llyfr *Chwarae Plant*

MCPS Cyf ar gyfer 'Agorawd Yr Wyddfa' gan Gareth Glyn; 'Chwarae'n Troi'n Chwerw' gan Caryl Parry Jones; 'Dwi'n amau dim' gan Barry Jones, Celt; 'Ffa la la' o *Nia Ben Aur* gan Phil Edwards; 'Sosban Fach', perfformiwyd gan Bryn Terfel, o *We will keep a welcome*; 'Yma o Hyd' gan Dafydd Iwan

Pearson Education/Heinemann ar gyfer 'Earth Angel' o *New Music Matters* gan Chris Hiscock et al.

Rhodri Evans ar gyfer cyfansoddiad o 'So Blue'

Sain (Recordiau) Cyf ar gyfer 'Adiemus', perfformiwyd gan Gôr Seiriol; 'Ffa la la' o *Nia Ben Aur* gan Phil Edwards; 'Yma o Hyd' gan Dafydd Iwan (trwyddedwyd gan Sain (Recordiau) Cyf)

Select Music and Video Distrubution Limited ar gyfer 'The Sabre Dance' a gyfansoddwyd gan Khachaturian, perfformiwyd gan Gerddorfa Symffoni Gwladol St Petersburg (trwyddedwyd trwy gwrteisi Naxos Rights International)

Sony Music ar gyfer 'Boston' gan Augustana; 'Don't Lie' gan Black Eyed Peas; *Palladio* gan Karl Jenkins; 'St. Louis Blues' gan W C Handy, perfformiwyd gan Bessie Smith/Louis Armstrong

Universal Music Operations Limited ar gyfer 'Agorawd Yr Wyddfa' gan Gareth Glyn, perfformiwyd gan Royal Ballet Sinfonia, trwy gwrteisi Deutsche Grammophon o dan drwydded Universal Music Operations Limited; 'Earth Angel', perfformiwyd gan The Penguins, trwy gwrteisi Island Def Jam; 'Sosban Fach' perfformiwyd gan The Black Mountain Choir/Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru/Bryn Terfel/Gareth Jones trwy gwrteisi The Decca Music Group;
'A Thousand Miles' perfformiwyd gan Vanessa Carlton trwy gwrteisi A&M o dan drwydded Universal Music Operations Limited

Universal Music Publishing Ltd ar gyfer 'Don't Lie' gan Black Eyed Peas; 'A Thousand Miles', perfformiwyd gan Vanessa Carlton

Warner/Chappell Music Publishing Ltd ar gyfer 'We Go Together' o *Grease* gan Jim Jacobs a Warren Casey; 'Only Love' o *The Scarlet Pimpernel* gan Frank Wildhorn a Nan Knighton